Y Comisiwn Etholiadol

Amseru cyfrif etholiadau

Papur materion

Tachwedd 2011

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol 2011

Cynnwys

1	Cyflwyniad		1
2	Datblygiadau diweddar		5
3	Materion allweddol		14
4	Ffyrdd ymlaen		27
	Atodiad A	Fframwaith deddfwriaethol	38
	Atodiad B	Etholiadau cyfun posib	46

1 Cyflwyniad

Ynglŷn â'r papur hwn

1.1 Mae'r Papur Materion yn ymwneud ag amseru cyfrif etholiadau ar draws y DU. Ei bwrpas yw:

- Adolygu datblygiadau diweddar ar amseru cyfrifiadau mewn prif etholiadau ar draws y DU
- Ystyried y ffactorau ymarferol sy'n effeithio ar gyfrif pleidleisiau ar ôl i orsafoedd pleidleisio gau
- Ystyried y gwahanol safbwyntiau sy'n cael eu dal gan: y rheiny sydd yn ymgyrchu mewn etholiadau; y rheiny sydd yn gyfrifol am gynnal cyfrifiadau etholiad; sefydliadau cyfryngau sy'n ymdrin â chanlyniadau etholiad, a phleidleiswyr
- Codi cwestiynau ynghylch p'un a oes angen i'r sefyllfa newid ynghylch gwneud penderfyniadau ar amseru cyfrif etholiadau ac os felly, sut
- Ceisio barn pobl sydd â diddordeb yn y materion hyn.

1.2 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol sy'n adrodd yn uniongyrchol i Senedd y DU. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a chofrestru etholiadol. Nid oes gennym rôl mewn pennu amseru unrhyw gyfrifiadau etholiad, er ein bod â rôl yng nghyswllt amseru cyfrifiadau refferendwm, a eglurir yn ddiweddarach yn y papur hwn.

1.3 Fodd bynnag, rydym yn gyfrifol am gyhoeddi adroddiadau ar weinyddiaeth refferenda ac etholiadau; ac mewn nifer o'n hadroddiadau diweddar, mae cwestiwn amseru cyfrif etholiadau wedi ei godi. Yn ein hadroddiadau ar yr etholiadau a refferendwm a gynhaliwyd ar 5 Mai 2011[1], gwnaethom addewid i gylchu Papur Materion, yn dynodi materion a gododd mewn etholiadau ar draws y DU mewn blynyddoedd diweddar a cheisio barn pobl sydd â diddordeb mewn amseru cyfrif etholiadau.

1.4 Y prif fater yw bod llawer o Swyddogion Canlyniadau wedi ystyried y byddai cynnal cyfrifiadau etholiad cynyddol gymhleth yn well ar y bore ar ôl cau'r bleidlais pan fo staff yn effro a llai tebygol o wneud camgymeriadau, tra bo

[1] Y Comisiwn Etholiadol *Referendum on the voting system for UK Parliamentary elections Report on the May 2011 referendum; Report on the Scottish Parliament election on 5 May 2011; Adroddiad ar etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 5 Mai 2011* (Hydref 2011)

llywodraethau, pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn aml wedi pwyso am i gyfrifiadau mewn etholiadau mawr ddigwydd yn syth ar ôl cau'r bleidlais. Mae hyn wedi arwain at ddadleuon yn y parth cyhoeddus cyn etholiadau mawr.

1.5 Rydym yn cylchu'r Papur Materion hwn er mwyn galluogi rhannu barn a safbwyntiau gan bartïon â diddordeb, yn rhydd oddi wrth benderfyniadau buan ynghylch amseru'r cyfrif mewn unrhyw etholiad neilltuol. Er mwyn caniatáu i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr ymgyrchu ac i bleidleiswyr wneud eu dewisiadau ar y materion o sylwedd sydd wrth wraidd yr etholiad, dylai penderfyniadau ar amseru'r cyfrif gael eu cymryd tu allan i'r cyfnod ymgyrch etholiad priodol. Gobeithiwn trwy wahodd ymatebion i'r materion a godir yn y papur hwn, ac adrodd ar y canlyniadau, y gallwn gynorthwyo gyda chyflawni hynny, yn ogystal â chryfhau'r sail dystiolaeth y gwneir penderfyniadau ynghylch amseru'r cyfrif arni.

1.6 Mae'r papur hwn yn cynnwys cwestiynau penodol ynghylch materion y buasem yn arbennig o falch o gael eich barn arnynt. Mae Adran 2 o'r Cyflwyniad hwn, a elwir yn 'Canllawiau ar gyfer ymatebion', yn dweud mwy wrthych am hynny.

1.7 Yn dilyn dadansoddiad o farn a gawn mewn ymateb i'r papur hwn, byddwn yn ceisio gwneud argymhellion, erbyn canol-Mawrth 2012, ar amseru cyfrif etholiadau a'r ffordd maent yn cael eu trefnu, gan gymryd i ystyriaeth y math o etholiadau ac amrediad o amgylchiadau perthnasol. Bydd ein hargymhellion yn cael eu gwneud ble bo'n briodol i lywodraethau ar draws y DU, Swyddogion Canlyniadau etholiad a phobl gyda chyfrifoldebau perthnasol.

Cyflwyno ymateb

1.8 Rydym wedi anfon y papur hwn at y canlynol: Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, pleidiau gwleidyddol, aelodau etholedig sydd wedi mynegi diddordeb yn y mater, Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr, y Prif Swyddog Etholiadol yng Ngogledd Iwerddon, sefydliadau newyddion, a nifer o asiantaethau, cyrff proffesiynol, a sefydliadau cynrychioliadol gan gynnwys:

- Cymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)
- Cymdeithas Prif Weithredwyr Llywodraeth Leol (SOLACE)
- Cymdeithas Cyfreithwyr a Gweinyddwyr Llywodraeth Leol yn yr Alban (SOLAR)
- Bwrdd Rheoli Etholiadau'r Alban
- London Elects
- Cymdeithasau llywodraeth leol

1.9 Rydym wedi cyhoeddi'r papur hwn ar ein gwefan, ble rydym hefyd yn gwahodd aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb i gyflwyno barn.

1.10 Hefyd bwriadwn drafod yr ymgynghoriad hwn mewn fforymau addas a byddwn yn hapus i drefnu cyfarfodydd gydag unigolion neu grwpiau eraill sydd â diddordeb, ar gais.

Manylion cyswllt

1.11 Buasem yn ddiolchgar petaech yn dychwelyd unrhyw ymatebion i'r manylion cyswllt isod, naill ai drwy'r post, e-bost neu ffacs. Byddwn hefyd yn hapus i gofnodi unrhyw ymatebion dros y ffôn. Os gwelwch yn dda anfonwch eich ymateb i:

Joanne Nelson
Uwch Swyddog Ymarfer a Pherfformiad Etholiadau
Y Comisiwn Etholiadol
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE
Ffôn: 02920 346 800
Ffacs: 02920 346 805
E-bost: jnelson@electoralcommission.org.uk

1.12 Y terfyn amser ar gyfer ymatebion yw 3 Chwefror 2012. Er y gallwn gymryd i ystyriaeth ymatebion a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad hwn, ni allwn warantu y byddwn yn medru gwneud hynny.

1.13 Fodd bynnag, os ydych yn rhagweld unrhyw anawsterau mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Fel y trafodwyd uchod, byddwn yn hapus i gwrdd ag unigolion a grwpiau sy'n dymuno mynegi eu barn yn bersonol i ni, a gall hwn fod yn opsiwn i'r rheiny sy'n brin o amser i ymateb.

1.14 I'n helpu i ddadansoddi barn, bydd yn ddefnyddiol petai'r atebwyr yn ei gwneud yn glir ym mha gapasiti neu ar ran pwy y cyflwynir eu hymateb. Felly efallai y gwnawn gysylltu ag atebwyr am ragor o wybodaeth ynghylch statws eu cyflwyniad os nad yw hynny'n glir yn syth o'r ymateb. Yn ychwanegol, efallai y byddwn yn dymuno cyhoeddi'r ymatebion i'r papur hwn neu eu gwneud ar gael i'w harchwilio.

Canllawiau ar gyfer ymatebion

1.15 Buasem yn arbennig o falch derbyn ymatebion i'r cwestiynau ym Mhennod 3 ar:

- Safbwyntiau'r rheiny sydd yn cynnal cyfrifiadau etholiad; y rheiny sydd yn ymgyrchu mewn etholiadau; sefydliadau cyfryngau sy'n ymdrin â chanlyniadau etholiad; a phleidleiswyr.

1.16 Buasem yn arbennig o falch derbyn ymatebion i'r cwestiynau ym Mhennod 4 ar ffyrdd posib ymlaen, yn enwedig:

- P'un a ellir osgoi tensiynau dros amseru cyfrif etholiadau sydd wedi digwydd cyn etholiadau o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer rheoli etholiadau, yn ei hanfod trwy ddeialog rhwng y rheiny sy'n gysylltiedig, a phenderfyniadau clir yn cael eu cyhoeddi ymhell cyn etholiadau

- P'un a oes angen newid deddfwriaethol, fel rhagor o ddefnydd o bwerau cyfarwyddo i gael mwy o gysondeb.

1.17 Hefyd gosodir allan y cwestiynau a geir drwy Benodau 3 a 4 ar y diwedd er mwyn cyfeiriad hwylus.

Beth sy'n digwydd nesaf?

1.18 Byddwn yn adolygu'r ymatebion a dderbyniwyd ac ystyried yr argymhellion y dylem eu gwneud o ganlyniad, gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r gyfraith berthnasol neu ymarfer presennol. Gallwn wneud argymhellion i:

- Llywodraeth y DU
- Llywodraeth yr Alban
- Llywodraeth Cymru
- Swyddogion Canlyniadau
- Bwrdd Rheoli Etholiadol i'r Alban
- London Elects
- Prif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon

1.19 Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymarfer hwn ac unrhyw argymhellion a wnawn o ganlyniad iddo erbyn 16 Mawrth 2012.

1.20 Erbyn hynny, mae'n debyg y bydd penderfyniadau wedi eu gwneud ynghylch amseriad y cyfrifiadau yn yr etholiadau lleol i'w cynnal ym Mai 2012 ac felly ni fyddant yn cael eu heffeithio gan unrhyw argymhellion y gallwn eu gwneud. Gobeithiwn, fodd bynnag, y bydd rhai o'r materion a godir yn y papur hwn yn dylanwadu ar y ffordd y gwneir penderfyniadau ar gyfer yr etholiadau ym Mai 2012.

2 Datblygiadau diweddar

2.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi datblygiadau mewn gwahanol etholiadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ble gwelwyd tensiynau dros amseru cyfrif etholiadau. Y prif fater yw bod llawer o Swyddogion Canlyniadau wedi ystyried y byddai cynnal cyfrifiadau etholiad cynyddol gymhleth yn well ar y bore ar ôl cau'r bleidlais pan fo staff yn effro a llai tebygol o wneud camgymeriadau, tra bo llywodraethau, pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn aml wedi pwyso am i gyfrifiadau mewn etholiadau mawr ddigwydd yn syth ar ôl cau'r bleidlais. Mae hyn wedi arwain at ddadleuon yn y parth cyhoeddus cyn etholiadau mawr.

Pwy sy'n penderfynu pryd y cyfrir pleidleisiau?

2.2 Y ddeddfwriaeth benodol i bob etholiad sy'n nodi pwy all wneud penderfyniadau ynghylch amseru'r cyfrif pleidleisiau. Yn fras, mae amseru cyfrif etholiadau yn fater i Swyddogion Canlyniadau ei benderfynu, yn destun i'r gofyniad fod cyfrif yn dechrau 'mor fuan ag sy'n ymarferol bosib' ar ôl cau'r bleidlais. Golyga hyn fod bob Swyddog Canlyniadau unigol yn gyfrifol am gymryd penderfyniad dan amgylchiadau bob cyfrif etholiad.

2.3 Mae sgôp penderfyniadau'r Swyddog Canlyniadau yn cael ei ragnodi yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU, ac mewn rhai etholiadau eraill, mae gan swyddogion penodol rôl.

2.4 Yn Atodiad A ceir gwybodaeth fanwl ynghylch pwy all wneud penderfyniadau pryd mae pleidleisiau i'w cyfrif ym mhob un o'r etholiadau mawr ar draws y DU. Mae'n crynhoi'r math o etholiad, y system bleidleisio a ddefnyddir, nifer y papurau pleidleisio, a'r dull a ddefnyddir gan y pleidleiswyr i wneud eu dewis.

2.5 Mae'r sefyllfa ar gyfrifiadau mewn refferenda yn gwrthgyferbynnu â hwnnw mewn etholiadau. Rydym yn cynnwys cyfeiriad isod at y ddau refferendwm a gynhaliwyd yn 2011, gan fod amseru'r cyfrifiadau refferendwm yn cael ei lywodraethu gan bŵer cyfarwyddo i gael mwy o gysondeb, yn hytrach na'i fod yn fater i Swyddog Canlyniadau unigol. Ymhellach, cynhaliwyd un o'r cyfrifiadau refferendwm yn gyfan gwbl yn ystod y dydd. Y prif wahaniaeth rhagor nag etholiadau, fodd bynnag, yw bod gan refferendwm un canlyniad cyffredinol yn hytrach na'i fod yn cynnwys cyfres o gystadlaethau unigol.

2.6 Crynhoir isod y datblygiadau mewn etholiadau diweddar yn y drefn gronolegol y digwyddasant.

Etholiadau Senedd yr Alban yn 2003 a 2007

2.7 Tan 2011, roedd etholiadau Senedd yr Alban yn cael eu cyfuno gydag etholiadau lleol. Yn 2003, cychwynnodd y cyfrif Seneddol yn union ar ôl cau'r blediais, gydag etholiadau lleol yn cael eu cyfrif am 10 am neu wedi hynny ar y

diwrnod canlynol. Yn ein hadroddiad statudol ar yr etholiadau hynny[2], nodasom nifer o bryderon ynghylch cyfrif dros nos. Yn dilyn adolygiad o'r materion a wnaethpwyd gennym yn 2005, argymellasom yn Ionawr 2006 na ddylai'r cyfrifiadau ar gyfer etholiadau Seneddol a lleol 2007 gychwyn tan y diwrnod ar ôl cau'r bleidlais, gan gymryd i ystyriaeth y byddai'r Bleidlais Drosglwyddadwy Sengl (STV) yn cael ei defnyddio am y tro cyntaf yn yr etholiadau lleol yn yr Alban. Dyma hefyd oedd cyngor cryf y Swyddogion Canlyniadau. Fodd bynnag, penderfynodd Gweinidogion Swyddfa'r Alban lynu at gyfrif dros nos ar gyfer yr etholiadau Seneddol.

2.8 Cafwyd nifer o broblemau'n ymwneud â chyfrif electronig yn etholiadau 2007. Cafwyd adolygiad annibynnol gan yr arbenigwr etholiadau Ron Gould[3]. Un o'r argymhellion a wnaed yn Adroddiad Gould oedd na ddylid bod mwy o gyfrif dros nos o bapurau pleidleisio petai'r pleidleisio'n parhau i gau am 10pm. Awgrymodd y gallai gwaith gweinyddol a pharatoadol fynd yn ei flaen dros nos gyda'r bwriad o wneud y pleidleisiau'n barod i'w cyfrif gan dîm ffres yn y bore.

2.9 Ymgymerodd Swyddfa'r Alban Llywodraeth y DU ag ymgynghoriad yn 2008 ar faterion gweinyddu etholiadau ar ôl Adroddiad Gould, a chanfuwyd tra byddai'n well gan y mwyafrif o ymatebwyr (53.8%) gyfrif y diwrnod canlynol, roedd 20.5% yn cefnogi'n gryf cyfrif y pleidleisiau'n syth ar ôl cau'r bleidlais. Gweinyddwyr etholiadol oedd y mwyafrif o'r rheiny a oedd yn galw am gyfrif y diwrnod canlynol, tra bo gwleidyddion a phleidiau'n ffurfio'r mwyafrif a oedd eisiau cyfrif ar ôl cau'r bleidlais.

Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007

2.10 Hwn oedd yr etholiad cyntaf yng Nghymru i ymgeiswyr ar gyfer pleidleisiau drwy'r post orfod darparu eu llofnod a dyddiad geni, fel y gallai'r rhain gael eu croeswirio gan y Swyddogion Canlyniadau gyda'r rheiny a ddarparwyd pan fwriwyd y pleidleisiau. Roedd Swyddogion Canlyniadau'n pryderu y byddai gwirio pleidleisiau drwy'r post a roddwyd i mewn yn ystod y diwrnod pleidleisio yn achosi oedi i'r cyfrif.

2.11 Fodd bynnag, roedd y pedair prif blaid wleidyddol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gryf o blaid cyfrif dros nos. Daeth pleidiau gwleidyddol yn rhwystredig nad oedd penderfyniad cyhoeddus ar draws Cymru gan y Swyddogion Canlyniadau. Hefyd canfu darlledwyr fod y methiant i gymryd penderfyniad cyhoeddus yn fuan yn creu problemau o safbwynt cynllunio rhaglenni.

2.12 Fel y digwyddodd pethau, gwnaeth Swyddogion Canlyniadau gynnal cyfrifiadau etholaethau a rhanbarthol dros nos, ond parhaodd y rhain ymhell i'r

---

[2] Scottish Elections 2007: Scottish Government Response to the Independent Review of The Scottish Parliamentary and Local Government Elections 3 May 2007
[3] Scottish Etholiadau Review –The Gould Report, Hydref 2007

bore cynnar, amser brecwast, ac i brynhawn y diwrnod canlynol ar ôl cau'r bleidlais yn achos un cyfrif rhanbarthol.

2.13 Wrth adrodd ar yr etholiad[4], nodasom bwysigrwydd cyhoeddus cael penderfyniadau ar amseru'r cyfrif ac argymellasom y dylid gwneud cyhoeddiadau'n gyhoeddus gan y Swyddog Canlyniadau mor fuan â phosib yn y cylch cynllunio etholiadau ar amseru cyfrifiadau mewn etholiadau Cynulliad i'r dyfodol.

Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon yn 2003 a 2007

2.14 Nid yw'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r ffordd y rhestrir etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon yn manylu ar amserlen pryd y dylai'r cyfrif gychwyn. Fodd bynnag, unwaith y bo wedi cychwyn, rhaid i'r cyfrif fynd yn ei flaen yn barhaus (gan ganiatáu amser i doriadau lluniaeth a thros nos).

2.15 Achosodd hyd yr amser a gymerodd i gwblhau cyfrifiadau etholiad y Cynulliad yn 2003 gryn rwystredigaeth ymhlith ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol a'r cyfryngau. Daethom i gasgliad yn ein hadroddiad etholiad 2003[5] fod y cyfrif wedi cymryd mwy o amser nag oedd ei angen. Dynodwyd gwendidau yn y rheolaeth gyffredinol a'r defnydd o staff mewn rhai cyfrifiadau a chwestiynwyd tryloywder y gweithrediadau. Argymellasom fod Swyddfa Etholiad Gogledd Iwerddon yn gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg i wella cyflymder y cyfrif.

2.16 Cafwyd materion tebyg yn 2007 ac wrth adrodd ar yr etholiadau, gwnaethom sylw eto sut yr oedd natur fwy cymhleth cyfrifiadau pleidlais drosglwyddadwy sengl (STV) wedi arwain at gyfrifiadau hir a rhwystredigaeth i bleidiau gwleidyddol a'r cyfryngau. Eto argymellasom adolygu'r gweithdrefnau a ddefnyddir[6] gyda'r bwriad o wella cyflymder y cyfrif.

Etholiad cyffredinol Senedd y DU 2010

2.17 Tan 2010, roedd y ddeddfwriaeth ar amseru cyfrifiadau Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn debyg i honno ar gyfer etholiadau eraill, yn yr ystyr mai penderfyniad y Swyddog Canlyniadau oedd pryd i gyfrif pleidleisiau, yn destun i'r gofyniad fod cyfrif yn cychwyn 'mor fuan ag y mae'n rhesymol ymarferol'.

2.18 Cyn yr etholiadau, daeth yn amlwg fod nifer o Swyddogion Canlyniadau yn bwriadu cyfrif pleidleisiau y diwrnod ar ôl cau'r bleidlais. Y prif reswm am hyn oedd mai hwn oedd yr etholiad cyntaf wedi ei seilio ar etholaethau ble byddai'r

---

[4] Y Comisiwn Etholiadol, *Yr Adroddiad Swyddogol ar Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 3 Mai 2007* (Gorffennaf 2007)
[5] Y Comisiwn Etholiadol, *The official report on the Northern Ireland Assembly election 26 November 2003*
[6] Y Comisiwn Etholiadol, *The official report on the Northern Ireland elections 3 May 2007* (Mehefin 2007)

gofynion newydd i wirio llofnodion a dyddiadau geni ar bleidleisiau drwy'r post yn cael eu gwneud gan y Swyddogion Canlyniadau. Mae ceisiadau pleidleisiau post, yn erbyn y rhain mae'r pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd yn cael eu gwirio, yn cael eu dal gan y swyddogion cofrestru etholiadol (EROs). Mae nifer o etholaethau yn rhychwantu ffiniau lleol ble mae'r EROs yn gweithredu, gan olygu fod Swyddogion Canlyniadau yn yr etholaethau hynny angen data gan EROs cyfagos i alluogi gwirio, a oedd yn golygu heriau technegol.

2.19 Yn dilyn pryderon ymhlith gwleidyddion a phleidiau gwleidyddol ynghylch na fyddai canlyniadau etholiad cyffredinol ar gael tan y diwrnod ar ôl cau'r bleidlais, cyflwynwyd darpariaethau newydd ar gyfer etholiad cyffredinol yn 2010, a fwriedid i sicrhau fod Swyddogion Canlyniadau yn cychwyn cyfrif o fewn pedair awr ar ôl cau'r bleidlais. Roedd y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu (CRAG), a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 8 Ebrill 2010, lai na mis cyn y diwrnod etholiad ar 6 Mai, yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Swyddogion Canlyniadau gymryd camau i ddechrau cyfrif pleidleisiau i etholiad cyffredinol y DU o fewn pedair awr ar ôl cau'r bleidlais[7].

2.20 Cafwyd y newid hwyr hwn yn dilyn dadl yn Nhŷ'r Cyffredin ac ymgyrch proffil uchel i sicrhau bod pleidleisiau yn y rhan helaethaf o etholaethau yn cael eu cyfrif a'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn ystod y gyda'r nos a bore cynnar ar ôl cau'r bleidlais ar 6 Mai. Mynegodd ASau bryderon bod Swyddogion Canlyniadau wedi cymryd penderfyniadau ynghylch amseru'r cyfrif heb ymgynghori ag ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol ynghylch y goblygiadau posib.

2.21 Hefyd i'r etholaethau ble nad oedd cyfrif yn cychwyn o fewn yr amserlen hon, roedd CRAG yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau gyhoeddi datganiad yn amlinellu'r camau a gymerwyd a'r amser pryd y cychwynnwyd y cyfrif, ac anfon copi o'r datganiad i'r Comisiwn Etholiadol o fewn 30 diwrnod i gyhoeddi'r canlyniad.

2.22 Roedd yn ofynnol ar i'r Comisiwn gyhoeddi yn ei adroddiad ar yr etholiad restr o'r etholaethau ble na chychwynnodd y cyfrif o fewn yr amserlen ragnodedig. Cyflwynodd Swyddogion Canlyniadau mewn 45 o etholaethau ddatganiadau o'r math hwn. O'r 45, roedd 23 wedi cynllunio ymlaen llaw i gychwyn y cyfrif y bore ar ôl cau'r bleidlais. Gyda'r 22 arall, adroddodd y Swyddogion Canlyniadau na wnaeth y cyfrif gychwyn o fewn pedair awr o gau'r

[7] Cyn etholiad cyffredinol Senedd y DU 2010, roedd cyfrif yng Ngogledd Iwerddon yn cychwyn y diwrnod ar ôl y bleidlais ac nid oedd unrhyw gyfrif dros nos. Yn ein hadroddiad 2005 ar etholiadau cyfun Senedd y DU ac etholiadau lleol yng Ngogledd Iwerddon, argymellasom pan fo etholiad yn un DU-eang y dylai'r cyfrif yng Ngogledd Iwerddon gychwyn ar yr un pryd â Phrydain Fawr.

bleidlais oherwydd bod dilysu'r papurau pleidleisio wedi cymryd mwy o amser nag a ddisgwyliwyd[8].

Refferendwm Cymru 2011

2.23 Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol, neu unigolyn y dirprwyir y cyfrifoldeb hwn iddynt, yw'r Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer refferendwm.[9] Yn y refferendwm a gynhaliwyd yng Nghymru ar 3 Mawrth 2011, roedd gan y Prif Swyddog Cyfrif bŵer cyfarwyddo i gyflawni cysondeb, gan olygu ei bod yn medru cyfarwyddo swyddogion cyfrif lleol ynghylch amseru'r cyfrif refferendwm. Roedd rheolau'r refferendwm yn caniatáu i gyfrif y pleidleisiau gychwyn rhwng 9 am a 12 hanner dydd ar y diwrnod ar ôl cau'r bleidlais, os oedd y Prif Swyddog Cyfrif yn rhoi cyfarwyddyd i'r perwyl hwnnw[10].

2.24 Gofynnodd y Prif Swyddog Cyfrif am farn partïon â diddordeb ar amseru'r cyfrif. Gwnaeth hynny ar gam cynnar (Tachwedd 2010) er mwyn cynorthwyo cynllunio effeithiol gan bawb a oedd yn gysylltiedig.

2.25 Cafodd y Prif Swyddog Cyfrif farn gymysg gan swyddogion cyfrif a gweinyddwyr etholiadol ynglŷn â phryd y dylai'r cyfrif ddigwydd. Roedd y rheiny mewn ardaloedd trefol gan fwyaf eisiau cyfrif dros nos ar y sail, gydag un papur pleidleisio, y gellid ei gwblhau'n gymharol gyflym. Fodd bynnag, roedd eraill yn pryderu y gallai tywydd garw achosi oedi difrifol wrth ddanfon y blychau pleidleisio o'r gorsafoedd pleidleisio i ganolfannau cyfrif lleol, yn enwedig mewn rhai rhannau o Gymru. Felly dadleuodd y gweinyddwyr etholiadol am ddisgresiwn ynglŷn â phryd y dylid cynnal y cyfrif. Dadleuodd ymgyrchwyr refferendwm a phleidiau gwleidyddol dros gyfrif dros nos traddodiadol.

2.26 Daeth y Prif Swyddog Cyfrif i'r casgliad ei bod yn bwysig cynnal natur genedlaethol y cyfrif a chychwyn mewn dull cydlynol ar draws Cymru pan oedd yr holl flychau pleidleisio wedi eu derbyn yn yr holl ganolfannau cyfrif. Byddai llawer mwy o siawns i hynny ddigwydd os oedd y dilysu a chyfrif wedi cychwyn y bore canlynol ar ôl cau'r bleidlais.

2.27 Ymhellach, roedd cyfrif yn ystod y dydd yn rhoi mwy o gyfle i sicrhau fod cyhoeddi'r canlyniad yn ddigwyddiad democrataidd ynddo'i hun, y gellid ei ddangos ar y cyfryngau yng Nghymru. Byddai hyn yn sicrhau mwy o fynediad cyhoeddus i'r broses. Felly rhoddodd y Prif Swyddog Cyfrif gyfarwyddyd i swyddogion cyfrif na ddylai cyfri'r pleidleisiau gychwyn cyn 9am ar y diwrnod ar ôl cau'r bleidlais.

---

[8] Y Comisiwn Etholiadol *Report on the administration of the 2010 UK general election 2010: Appendix A* (Gorffennaf 2010)
[9] Am refferendwm a gynhelir dan amodau'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.
[10] Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddf Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm, Ayb) 2010, Atodlen 3, Rheol 33 (2)

2.28 Cychwynnodd y dilysu pleidleisiau a chyfrif ar Ddydd Gwener, 4 Mawrth. Roedd un papur pleidleisio gyda chanlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar fwyafrif syml. Roedd etholwyr yn pleidleisio 'ie' neu 'na' trwy osod croes mewn blwch. Cafodd y canlyniadau yn y 22 o ardaloedd cyfrif awdurdod lleol eu cyhoeddi o ychydig cyn hanner dydd ymlaen, a chafwyd cyhoeddiad o'r canlyniad terfynol yn fuan ar ôl 3 pm. Roedd y cyfanswm amser i ddilysu a chyfrif pleidleisiau dipyn dros 6 awr.

2.29 Oherwydd bod y refferendwm yn cael ei gydlynu'n ganolog, mae gennym ddata manwl ynghylch amser a gymerwyd i gyfrif pleidleisiau. Hefyd cawsom ffigyrau gwylio gan BBC Cymru Wales am gyfer eu rhaglenni canlyniadau'r refferendwm. Rydym yn adolygu'r data hwn ym Mhennod 3.

Refferendwm y DU wedi'i gyfuno ag etholiadau a amserlennwyd ym Mai 2011

2.30 Ar 5 Mai 2011, cyfunwyd refferendwm y DU ar system bleidleisio i Senedd y DU gydag etholiadau a amserlennwyd i Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon, ac etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

2.31 Fel gyda Refferendwm Cymru a gynhaliwyd ym Mawrth 2011, Cadeirydd y Comisiwn oedd y Prif Swyddog Cyfrif i refferendwm y DU, gyda phŵer cyfarwyddo i gael mwy o gysondeb, gan olygu ei bod wedi medru cyfarwyddo swyddogion cyfrif ynghylch amseru'r cyfrif refferendwm. Yn Nhachwedd 2010, ceisiodd farn partïon â diddordeb trwy gyhoeddi papur ynghylch amseru'r cyfrif, yn cynnig rhoi cyfarwyddyd y dylai cyfrif y pleidleisiau ar gyfer y refferendwm gychwyn am 4 pm ar Ddydd Gwener 6 Mai 2011.

2.32 Cymerodd y Prif Swyddog Cyfrif yr egwyddorion canlynol i ystyriaeth wrth benderfynu ar amseru'r cyfrif refferendwm:

- Dylai canlyniadau'r etholiadau a amserlennwyd fod ar gael cyn gynted â phosib
- Mae'r refferendwm yn etholiad DU-eang yn rhoi un canlyniad i'r DU gyfan
- Rhaid i ganlyniad y refferendwm fod yn gywir

2.33 Yn Rhagfyr 2010, yn dilyn derbyn barn, ble'r oedd y mwyafrif naill ai'n cytuno â chynnig y Prif Swyddog Cyfrif neu nid oeddynt yn wrthwynebus, cyfarwyddodd y Prif Swyddog Cyfrif y dylai dilysu'r papurau pleidleisio ar gyfer y refferendwm ddod i ben erbyn 1 pm ar Ddydd Gwener 6 Mai a bod y cyfrif pleidleisiau i gychwyn am 4 pm. Nid oedd traean o'r rhai a roddodd farn ynghylch amseru'r cyfrif yn cytuno y dylid cyfrif y pleidleisiau ar yr adeg hon, gan gynnig yn hytrach amrediad o ddyddiadau amgen o Ddydd Sadwrn 7 Mai i Ddydd Llun 9 Mai. Roedd y cyfan o'r rhai a oedd yn cynnig cyfrif hwyrach naill ai'n swyddogion cyfrif neu'n weinyddwyr etholiadol.

Etholiad Senedd yr Alban 2011

2.34 Yn arwain i fyny at etholiad Senedd yr Alban, paratôdd Cynullydd Etholiadau Bwrdd Rheoli Etholiadol i'r Alban (EMB) bapur, ar ran y Swyddogion Canlyniadau, i Banel Pleidiau Gwleidyddol Senedd yr Alban yn gosod allan y manteision ac anfanteision o gyfrif dros nos a chyfrif y diwrnod wedyn. Tra bo Swyddogion Canlyniadau yn gyson wedi teimlo y byddai'n well cynnal y cyfrif cynyddol gymhleth y bore canlynol pan fo staff yn effro a llai tebygol o wneud camgymeriadau, mae'r mwyafrif o bleidiau gwleidyddol o'r farn y dylai'r cyfrif ddigwydd yn syth ar ôl cau'r bleidlais.

2.35 Wrth gyrraedd penderfyniad ynghylch pryd mae'n ymarferol cychwyn cyfrif pleidleisiau, mae Swyddogion Canlyniadau wedi cymryd amrediad o ffactorau i ystyriaeth gan gynnwys argaeledd staff â sgiliau priodol, ymarferoldeb lleoliadau, diogelwch y papurau pleidleisio a daearyddiaeth yr etholaeth. Maent wedi ymgynghori â phleidiau lleol ac ymgeiswyr, y cyfryngau a grwpiau eraill â diddordeb cyn dod i benderfyniad. I'r etholiad a refferendwm cyfun a gynhaliwyd ar 5 Mai 2011, cymerwyd hefyd i ystyriaeth y nifer o bapurau pleidleisio y byddai angen delio â nhw gan fod y tri phapur pleidleisio (dwy bleidlais etholiad Senedd yr Alban a phleidlais y refferendwm) angen eu dilysu cyn y gellid cychwyn cyhoeddi unrhyw ganlyniadau Seneddol.

2.36 Yn y pen draw, dilyswyd a chyfrifwyd 61 o 73 o etholaethau Senedd yr Alban dros nos. Dilyswyd y papurau pleidleisio i'r tair etholaeth Ucheldir dros nos ond ni chawsant eu cyfrif tan y bore canlynol. O'r naw etholaeth a oedd yn weddill, gwnaeth y cyfan eu dilysu a chyfrif ar fore Gwener.

2.37 O'r rheiny a ddewisodd gyfrif dros nos, cyhoeddodd yr olaf am 8 50am a'r rhanbarth etholiadol olaf am 3 36 pm ar Ddydd Gwener 6 Mai, gyda chyfanswm amser i ddilysu a chyfrif pleidleisiau yn 10 awr 50 munud ac 17 awr 36 munud, yn eu tro.

2.38 O'r rheiny a ddewisodd gyfrif y diwrnod canlynol, cyhoeddodd yr etholaeth olaf i gyhoeddi am 2 23 pm a'r rhanbarth olaf am 5 16 pm, hynny yw 16 awr 23 munud ac 19 awr 16 munud yn eu tro ar ôl cau'r blediais.

Etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

2.39 Daeth amseru'r cyfrif yn fater dadleuol ychydig cyn yr etholiad, pan ddaeth hi'n wybodaeth gyhoeddus fod y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru a Swyddogion Canlyniadau yn y rhanbarth etholiadol hwnnw wedi penderfynu cyfrif pleidleisiau y diwrnod ar ôl cau'r bleidlais yn hytrach na dros nos.

2.40 Er bod y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a'r Swyddogion Canlyniadau wedi ymgynghori â phleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr etholiad yn lleol wrth benderfynu ar amseru'r cyfrif, nid oedd penderfyniad yr holl ranbarthau yn hysbys i wleidyddion cenedlaethol tan ddiwedd fis Mawrth. Roedd arweinyddion y pedair plaid wleidyddol yn y Cynulliad a Llywydd y Cynulliad yn

feirniadol yn gyhoeddus o'r penderfyniad, gan nodi eu pryderon ynghylch diffyg cysondeb ar draws Cymru ac na fyddai canlyniad cyffredinol yr etholiad yn hysbys tan y byddai'r cyfrif yng Ngogledd Cymru wedi dod i ben. Roedd cryn gyhoeddusrwydd yn y cyfryngau yng Nghymru ar y mater, ychydig cyn yr etholiad.

2.41 Bu trafodaethau rhwng Swyddogion Canlyniadau ynghylch amseru'r cyfrif fel rhan o gyfarfodydd cynllunio'r etholiad a gynullwyd gan y Comisiwn ac a arweiniwyd gan swyddog rhanbarthol cyfrif refferendwm yng Nghymru, o fisTachwedd 2010. Er gwaethaf ymdrechion i gyrraedd consensws, roedd gwahanol farn mewn gwahanol ranbarthau ac etholaethau etholiadol. Roedd y mwyafrif, ond nid y cyfan, o Swyddogion Canlyniadau mewn etholaethau cymharol drefol mwy cywasgedig yn ffafrio cyfrif dros nos, fel yr oedd y rheiny mewn awdurdodau lleol gydag etholaethau sengl. Y rheiny mewn ardaloedd mwy gwledig gyda rhai pellteroedd mawr rhwng gorsafoedd pleidleisio a chanolfannau cyfrif oedd fwyaf pryderus am gyfrif dros nos.

2.42 Fel y digwyddodd pethau, gwelwyd fod dilysu'r tri phapur pleidleisio (gan gynnwys refferendwm y DU) a chyfrif pleidleisiau etholaeth a rhanbarth wedi bod yn broses hir ym mhob rhanbarth, gan gynnwys mewn nifer o ardaloedd trefol a oedd cyn hynny wedi bod yn fwy hyderus ynghylch cwblhau'r broses mewn amser rhesymol dros nos.

2.43 O'r rheiny a oedd yn cyfrif dros nos, roedd yr amser byrraf i ddilysu papurau pleidleisio etholiad a refferendwm ac i gyhoeddi canlyniad etholiad etholaeth dros bedair awr ar ôl cau'r bleidlais. O'r rheiny a oedd yn cyfrif dros nos, roedd yr etholaeth olaf i gyhoeddi wedi gwneud hynny am 7 18am a'r rhanbarth olaf am 9 18 am ar Ddydd Gwener 6 Mai, cyfanswm amser i ddilysu a chyfrif pleidleisiau o 9 awr 18 munud ac 11 awr 18 munud yn eu tro.

2.44 O'r rheiny a ddewisodd gyfrif y diwrnod canlynol, cyhoeddodd yr etholaeth olaf i gyhoeddi am 1 31 pm, a'r rhanbarth olaf am 1 48pm, hynny yw, 15 awr 31 munud ac 15 awr 48 munud yn eu tro ar ôl cau'r blediais.

Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon 2011

2.45 Fel yn 2003 a 2007, bu cyfrifiadau etholiad y Cynulliad yn destun i feirniadaeth gyson gan rai ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol a'r cyfryngau. Prif achos y gŵyn oedd arafwch a'r diffyg gwybodaeth gyffredinol ynghylch y modd roedd y cyfrif yn symud ymlaen, yn hytrach nag amseru'r cyfrif fel y cyfryw. Oherwydd bod y system bleidleisio STV yn cael ei defnyddio i'r rhan fwyaf o etholiadau yng Ngogledd Iwerddon, a bod hyn yn cymryd amser i gwblhau, ni chafodd y mater o gael canlyniadau cyflym mor fuan â phosib ar ôl cau'r bleidlais yr un pwyslais ag yng ngweddill y DU.

2.46 Roedd arafwch ymddangosiadol y cyfrif yn arbennig o amlwg ym Mai 2011, o'i gymharu â gweddill y DU, oherwydd bod cyfrif pleidleisiau yn y refferendwm ar systemau pleidleisio Senedd y DU wedi cychwyn ar yr un amser drwy'r DU. Cychwynnodd y cyfrif pleidleisiau yn y refferendwm am 4 pm ar

Ddydd Gwener 6 Mai. Daeth canlyniadau'r refferendwm o Ogledd Iwerddon i mewn am 2 am ar Ddydd Sadwrn 7 Mai, ymhell ar ôl gwybod y canlyniad yng ngweddill y DU.

2.47 Fel gydag etholiadau Cynulliad blaenorol, parhaodd y broses gyfrif am ddau ddiwrnod i gyd. Fodd bynnag, arweiniodd dilysu tri set o bapurau pleidleisio (dau i etholiad y Cynulliad a'r trydydd ar gyfer y refferendwm) at oedi sylweddol wrth gyhoeddi'r nifer a bleidleisiodd a chyfansymiau'r dewisiadau cyntaf yn yr etholiadau. Hefyd cafodd ffactorau trefniadol effaith ar gyflymder y cyfrif, gyda thystiolaeth o ymarfer anghyson a diffyg cynllun cyffredinol ar gyfer cyfrifiadau'r Cynulliad a'r refferendwm.

2.48 Yn dilyn yr etholiad, gwnaeth y Prif Swyddog Etholiadol ymrwymiad i gynnal arolwg llawn o'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer rheoli etholiadau a chynnal cyfrifiadau yng Ngogledd Iwerddon ac i adrodd ar hyn yn 2012. Roeddem yn croesawu hyn. Yn ein barn ni, roedd yr anawsterau a gafwyd yn etholiadau Mai yn ei gwneud yn hanfodol fod cylch gorchwyl yr adolygiad yn ddigon eang i ymdrin â'r diffygion a ddynodwyd. Rydym eisoes wedi gwneud yn glir ein barn mai un o'r allbynnau ddylai fod cynllun gweithredu wedi ei amserlennu ac adnoddau ar ei gyfer er mwyn gwella cyflenwad etholiadau a chyfrifiadau yng Ngogledd Iwerddon i'r dyfodol[11].

[11] Y Comisiwn Etholiadol, *Report on the Northern Ireland Assembly election on 5 May 2011* (Hydref 2011)

3 Materion allweddol

3.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r materion allweddol sy'n codi pan wneir penderfyniadau gan Swyddogion Canlyniadau ynghylch amseru cyfrif etholiadau. Mae'n nodi gwahanol safbwyntiau'r rheiny sy'n cynnal etholiadau a'r rheiny sy'n ymgyrchu ynddynt. Mae'n tynnu sylw at faterion perthnasol eraill, gan gynnwys mynediad cyhoeddus i ganlyniadau etholiad drwy raglenni canlyniadau darlledwyr.

3.2 Mae'r bennod hon yn nodi cwestiynau y byddem â diddordeb arbennig mewn clywed safbwyntiau gan ymatebwyr arnynt.

Egwyddorion

3.3 Ym marn y Comisiwn, mae egwyddor sylfaenol yn sylfaen i benderfyniadau ynghylch amseru cyfrif etholiadau, a honno yw'r angen i sicrhau canlyniad cywir y mae gan bleidleiswyr, ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol hyder ynddo.

3.4 Mae hynny'n golygu bod rhaid i'r cyfnod amser y mae cyfrifiadau yn cael eu cynnal fod yn broses gyfrif y gall y Swyddogion Canlyniadau (neu swyddogion cyfrif mewn refferendwm) sicrhau adnoddau iddi a'i chynnal yn effeithiol o'r dechrau i'r diwedd, gan sicrhau cywirdeb y canlyniad

Sut y cynhelir cyfrif etholiad?

3.5 Cyn ystyried y ffactorau sy'n effeithio'r modd o gynnal cyfrif, rydym yn crynhoi isod sut y mae cyfrif etholiad yn cael ei gynnal.

3.6 Ar ôl i'r bleidlais gau, mae blychau pleidleisio yn cael eu selio yn y gorsafoedd pleidleisio a'u cludo'n ddiogel i'r man ble fydd y cyfrif yn cael ei gynnal. Fel arfer, ond nid bob amser, mae hwn yn lleoliad canolog[12] o fewn yr awdurdod lleol neu etholaeth.

3.7 Mae dau gam i'r cyfrif. Yn gyntaf, mae papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd a rhai heb eu defnyddio yn cael eu dilysu – gofyniad cyfreithiol hanfodol er mwyn cyflawni canlyniad cywir ac atal twyll. Mae dilysu yn cynnwys cymharu'r cyfanswm nifer o bapurau pleidleisio yn y cyfrif gyda'r nifer o bapurau pleidleisio y rhoddwyd cyfrif amdanynt gan bob gorsaf bleidleisio, i ddynodi unrhyw

[12] Weithiau cynhelir cyfrifadau mewn adrannau etholiadol mewn nifer o leoliadau ar draws yr awdurdod lleol. Mewn etholiad a gynhelir ar sail ranbarthol, gall y cyfrif gymryd lle mewn lleoliad sy'n ganolog i'r rhanbarth.

anghysonderau. Mae hyn i wneud yn siŵr bod y nifer o bapurau pleidleisio a gofnodwyd fel rhai a anfonwyd i bleidleiswyr yn cyd-fynd â'r nifer o bapurau pleidleisio fydd yn cael eu cyfrif.

3.8 Mae cywirdeb ar y cam hwn yn hanfodol a rhaid i'r Swyddog Canlyniadau geisio datrys unrhyw anghysonderau. Er enghraifft, ble mae lleoliadau pleidleisio yn cynnwys mwy nag un orsaf bleidleisio, bydd pleidleiswyr weithiau'n rhoi eu papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio anghywir a gallai hynny gyfrif am yr anghysondeb.

3.9 Ar ôl dilysu, gall y Swyddog Canlyniadau gyfrifo'r nifer canrannol sy'n pleidleisio a dylai ddarparu manylion y cyfanswm sydd wedi'i ddilysu a'r nifer cyffredinol sy'n pleidleisio i ymgeiswyr ac asiantiaid.

3.10 Yr ail gam o'r cyfrif yw rhoi trefn ar y papurau pleidleisio er mwyn pennu'r cyfanswm nifer o bleidleisiau a fwrir i bob ymgeisydd. Rhaid i'r broses fod yn dryloyw drwy gydol yr amser. Mae papurau pleidleisio 'Amheus', ble mae amheuaeth o bosib ynghylch dewis y pleidleisiwr, yn cael eu beirniadu gan y Swyddog Canlyniadau ym mhresenoldeb yr ymgeiswyr ac asiantiaid.

3.11 Mae proses gysoni, ble mae'r cyfanswm sydd wedi'i gyfrif ar gyfer bob ymgeisydd yn cael ei ychwanegu at y nifer o bapurau pleidleisio a wrthodwyd oherwydd ansicrwydd, ac yna mae'r cyfanswm hwnnw'n cael ei gymharu â'r cyfanswm nifer o bleidleisiau sydd wedi'u dilysu. Os yw'r ddau ffigwr yr un fath, bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr ac asiantiaid. Os nad yw'r ddau gyfanswm yr un fath, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau geisio datrys unrhyw anghysonderau.

3.12 Mae gan ymgeiswyr ac asiantiaid yr hawl i ofyn i'r Swyddog Canlyniadau am ailgyfrif o'r pleidleisiau. Nid oes cyfyngiad i'r nifer o ailgyfrifiadau y gellir eu cynnal, ond gall y Swyddog Canlyniadau wrthod cynnal ailgyfrif os yw'n credu bod y cais yn afresymol.

3.13 Unwaith y mae'r cyfrif wedi'i gyflawni, bydd y Swyddog Canlyniadau yn cyhoeddi'r canlyniadau, gan roi hysbysiad cyhoeddus yn nodi enw bob ymgeisydd a etholwyd, y cyfanswm nifer o bleidleisiau ar gyfer bob ymgeisydd, a'r cyfanswm nifer o bapurau pleidleisio a wrthodwyd.

Dull cynnal cyfrifiadau

3.14 Mae'n cymryd mwy o amser i gyfrif pleidleisiau mewn rhai mathau o etholiadau nag eraill. Fel arfer mae cyfrif etholiad ble mae angen mwyafrif syml yn gyflymach nag mewn system ble mae pleidleisiau'n trosglwyddo ac y gellir edrych ar bapurau pleidleisio fwy nag unwaith, fel yn y system Pleidlais Drosglwyddadwy Sengl (STV).

System etholiadol

3.15 Mae'n cymryd mwy o amser i gyfrif pleidleisiau mewn rhai mathau o etholiadau nac eraill. Fel arfer mae cyfrif etholiad ble mae angen mwyafrif syml yn gyflymach na mewn system ble mae pleidleisiau'n trosglwyddo ac y gellir edrych ar bapurau pleidleisio fwy nag unwaith, fel yn y system Pleidlais Drosglwyddadwy Sengl (STV).

3.16 Mae rhai systemau etholiadol yn defnyddio dau bapur pleidleisio, megis y System Aelod Ychwanegol, ac mae canlyniad yr etholiad rhanbarthol yn dibynnu ar ganlyniad yr holl etholiadau etholaeth yn y rhanbarth. Ble na ellir datgan canlyniadau cyfrif rhanbarthol hyd nes y bydd y cyfrifiadau etholaethau wedi'u cwblhau, dim ond mor gyflym â'r cyfrif etholaeth mwyaf araf yn y rhanbarth y gall y cyfrif rhanbarthol fod.

3.17 Er enghraifft, bydd rhanbarth sy'n cynnwys etholaethau neu ardaloedd awdurdod lleol â phellteroedd maith i gael y blychau pleidleisio i'r canolfannau cyfrif (gweler isod) neu sydd â phrosesau cyfrif aneffeithlon yn araf yn cyrraedd canlyniad, pa mor effeithiol bynnag yw'r broses gyfrif ranbarthol ei hun. Mae cyd-ddibyniaeth felly'n effeithio ar yr amser cyffredinol sy'n cael ei gymryd i gynhyrchu canlyniad.

3.18 Mae cyd-ddibyniaeth hefyd yn codi yn y system Bleidlais Ategol, ble mae'n hanfodol cyd-drefnu amseru'r cyfrifiadau drwy'r rhanbarth neu ardal sy'n gysylltiedig, gan na ellir cadarnhau na chwblhau unrhyw gyfrif ail gam sydd ei angen tan fydd y canlyniadau cychwynnol wedi cyrraedd o'r holl awdurdodau lleol yn yr ardal.

3.19 Mae'r mater o gyd-ddibyniaeth hefyd yn berthnasol i gyfrifiadau refferendwm, sydd fel arfer gydag un canlyniad cyffredinol yn seiliedig ar gytuno ar ganlyniadau lleol, p'un ai ar lefel drwy'r-DU neu is-DU.

Cyfuniad

3.20 Mae'n debyg mai cyfuniad o wahanol etholiadau neu etholiadau gyda refferenda yw'r ffactor sengl pwysicaf sy'n effeithio ar drefniadaeth y cyfrif. Mae cymhlethdod cymharol cyfuno etholiadau'n cael ei effeithio gan y canlynol:

- Cyfrifoldebau gorgyffyrddol, gwrthdrawiadol a chymhleth ar gyfer cynnal y gwahanol etholiadau neu etholiadau a refferenda sy'n medru arwain at anawsterau wrth gynnal y cyfrif. Os nad yw'r fframwaith cyfreithiol yn darparu ar gyfer cyfuniad ffurfiol o brosesau etholiadol, ond sy'n darparu'n hytrach fod dau neu fwy o ddigwyddiadau etholiadol yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod, mae'n bosib y bydd rhaid i'r Swyddogion Canlyniadau gynnal dau neu fwy o gyfrifiadau ar wahân.

- P'un a yw'r unedau ble y cyfrir yr etholiadau cyfun yn lleol yn cydffinio â'i gilydd. Er enghraifft, gall etholiadau cyfun fod yn seiliedig ar yr un etholaethau neu'n seiliedig ar etholaethau ac ardaloedd awdurdod lleol. Os nad yw unedau lleol yn cydffinio, bydd yr ardaloedd pleidleisio yn wahanol a gall y Swyddog Canlyniadau ar gyfer bob etholiad fod yn

unigolyn gwahanol; mae'r ddau senario yn gwneud trefnu'r cyfrifiadau lleol yn fwy cymhleth.

- Y systemau etholiadol a ddefnyddir – er enghraifft, p'un a wnaethant ddefnyddio'r un system etholiadol neu un debyg neu p'un a oeddynt yn wahanol. Mae cyfuniad o un neu fwy o systemau etholiadol cymhleth yn ei dro yn cynyddu cymhlethdod y prosesau cyfrif.

- Gall gwahanol bapurau pleidleisio a systemau pleidleisio sydd ar waith ar y diwrnod pleidleisio arwain at ddryswch a chamgymeriadau gan bleidleiswyr wrth gofnodi eu dewisiadau'n gywir, sydd â'r potensial o gynyddu'r nifer o bapurau pleidleisio y mae angen i'r Swyddog Canlyniadau eu beirniadu.

- Dilysu'r papurau pleidleisio ar gyfer y gwahanol etholiadau. Cyn cyfrif y pleidleisiau, maent yn cael eu dilysu, sy'n golygu bod y cyfanswm nifer o bapurau pleidleisio yn y cyfrif yn cael ei gymharu â'r nifer o bapurau pleidleisio y cafwyd cyfrif amdanynt gan bob gorsaf bleidleisio, i ddynodi unrhyw anghysonderau. Ble fo mwy nac un etholiad, neu etholiad a refferendwm, mae'n arfer da (ac mewn rhai achosion yn ofyniad cyfreithiol) i ddilysu'r holl bapurau pleidleisio yn gyntaf – a thrwy hynny sicrhau bod cyfrif am yr holl bapurau pleidleisio. Os nad yw hynny'n cael ei wneud, mae posibilrwydd i bapurau pleidleisio ar gyfer un etholiad gael eu canfod mewn blychau pleidleisio sydd heb eu hagor ar gyfer yr etholiad arall, pan y cawsant eu rhoi yn y blwch anghywir gan bleidleiswyr, yn rhy hwyr i'w cynnwys yn y cyfrif. Mae hyn yn golygu bod y broses ddilysu ar gyfer etholiadau cyfun gyda dau neu fwy o bapurau pleidleisio yn debygol o fod yn faith.

Newid i systemau etholiadol neu brosesau etholiadol

3.21 Mae newid sylweddol i system etholiadol bresennol neu newid i broses etholiadol yn ffactor pwysig. Ble mae system etholiadol newydd yn cael ei chyflwyno, bydd pleidleiswyr, Swyddogion Canlyniadau a'u staff, pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn gweithio gyda system nad ydynt yn gyfarwydd â hi. Er enghraifft, gall cyflwyno system etholiadol gyfrannol yn lle system y cyntaf i'r felin gynnwys pleidleiswyr yn gosod sawl ymgeisydd mewn trefn rifiadol yn hytrach na dewis un ymgeisydd drwy roi un groes mewn blwch.

3.22 Ni fydd prawf wedi bod ar y system cyfrif pleidleisiau (waeth faint yr ymarferwyd hynny ymlaen llaw) gan y Swyddogion Canlyniadau a'u staff yn yr etholiad penodol.

3.23 Hefyd, bydd pleidleiswyr yn newydd i'r system etholiadol ac mae'r potensial am gamgymeriadau ar bapurau pleidleisio yn cynyddu – pleidleiswyr yn defnyddio croesau yn hytrach na rhifau, er enghraifft. Mae hyn yn ychwanegu

at y nifer o bapurau pleidleisio y mae'n rhaid eu beirniadu gan y Swyddog Canlyniadau.

3.24 Yn yr un modd, mae newid sylweddol i broses etholiadol yn gallu golygu adolygiadau i arfer cyfrif presennol a systemau newydd sy'n eu lle i gyfrif pleidleisiau. Cafwyd enghraifft ddiweddar nodedig o hyn gyda gwirio pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd (gweler isod), pan ddefnyddiwyd nhw gyntaf mewn etholiadau a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr yn 2007 ac yn yr Alban o 2008, pan welwyd heriau i'r Swyddogion Canlyniadau a'u staff ac yr ymestynnwyd yr amser a gymerwyd i wirio pleidleisiau drwy'r post cyn y gellid eu cyfrif.

3.25 Bydd newidiadau i brosesau etholiadol yn cael eu cadarnhau i mewn i arferion gweinyddu etholiadol dros gyfnod o amser, ond ar adeg eu cyflwyno cyntaf, gall olygu y cymerir mwy o amser nag arfer i gwblhau cyfrif.

Papur pleidleisio: nifer y dewisiadau a'r fformat

3.26 Gall y nifer o ddewisiadau ar y papur pleidleisio a'i fformat a dyluniad effeithio ar effeithlonrwydd a chyflymder y cyfrif. Er enghraifft, bydd papur pleidleisio sydd â nifer uchel o ymgeiswyr neu restrau bleidiau gwleidyddol (12 neu fwy) yn bapur mawr, gyda'r angen o bosib i bleidleiswyr ei blygu neu bydd o bosib yn cael ei argraffu â dwy golofn. Ar amser y cyfrif, gall papurau pleidleisio mawr fod yn drwsgl ac angen eu hagor, sy'n golygu fod y broses yn arafach.

3.27 Mae cyfrif mwy o ddewisiadau ar bapurau pleidleisio yn amlwg yn cymryd mwy o amser, fel y mae papurau pleidleisio mewn etholiadau aml-aelod.

3.28 Gall dyluniad y papur pleidleisio hefyd fod yn ffactor: mae staff cyfrif etholiad yn cyfrif pentyrrau o bleidleisiau ac yn eu hailwirio drwy 'fflicio', felly mae'n bwysig dylunio papur pleidleisio hygyrch, hawdd i'w ddefnyddio, sy'n lleihau camgymeriadau gan bleidleiswyr ac yn galluogi cyfrif cyflym[13].

Nifer a rheolaeth o bleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd

3.29 Yn Lloegr, yr Alban a Chymru, mae angen i Swyddogion Canlyniadau gydweddu llofnodion a dyddiadau geni sydd ar bleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd yn erbyn y rheiny a ddarparwyd gan etholwyr ar eu ceisiadau pleidlais drwy'r post. Mae'r mesur hwn wedi'i ddylunio i atal twyll pleidleisio. Ym mhob etholiad, mae cyfran o bleidleisiau drwy'r post yn cael eu cyflwyno gan bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio, yn hytrach na'u dychwelyd drwy'r post ymlaen llaw. Er bod Swyddogion Canlyniadau yn gallu casglu ac agor pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd o orsafoedd pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio, mae cyfran ohonynt ar ôl i'w hagor yn y cyfrif, ynghyd â'r rhai a gasglwyd gan y Post Brenhinol mewn 'ysgubiadau' o ganolfannau dosbarthu cyn cau'r bleidlais. Yn dibynnu ar faint y pleidleisio

[13] Gwneud eich Marc. Arfer da ar gyfer dylunio deunyddiau pleidleisiwyr: canllaw i weinyddwyr etholiadol, 2009

drwy'r post mewn ardal a'r nifer sy'n pleidleisio, gall hyn fod gymaint ag ychydig o gannoedd o bleidleisiau.

3.30 Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau gael systemau yn eu lle ar gyfer gwirio pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd yn y cyfrif. Gall y broses fod yn fwy cymhleth mewn etholiadau etholaeth sy'n torri ar draws ffiniau awdurdod lleol, gan fod y ceisiadau pleidlais drwy'r post yn cael eu cadw gan swyddogion cofrestru etholiadol sydd ddim o reidrwydd wedi'u lleoli yn yr un awdurdod lleol â'r Swyddog Canlyniadau a rhaid rhannu data.

3.31 Dylid cynllunio rheolaeth pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd yn y cyfrif yn ofalus gan y Swyddogion Canlyniadau yn cynnwys, er enghraifft, rhoi prawf ar systemau TG mewn lleoliadau cyfrif fel y gellir amcangyfrif ymlaen llaw beth yw maint y dasg a'r amser tebygol i'w chyflawni.

Daearyddiaeth

3.32 Gall daearyddiaeth ardal awdurdod lleol neu etholaeth effeithio ar yrb amser sydd ei angen i gael y blychau pleidleisio o orsafoedd pleidleisio ar ôl cau'r bleidlais i'r ganolfan gyfrif. Mewn ardaloedd gwledig gall y gorsafoedd pleidleisio fod yn bell iawn o'r canolfannau cyfrif, sy'n golygu na fydd rhai blychau pleidleisio yn cyrraedd y canolfannau cyfrif tan tua hanner nos ar ôl cau'r bleidlais am 10 pm.

3.33 Mewn ardaloedd mwy cywasgedig, trefol, mae pellteroedd o orsafoedd pleidleisio i ganolfannau cyfrif fel arfer yn fyrrach sy'n golygu y bydd y mwyafrif o flychau pleidleisio yn cael eu derbyn yn gynt ar ôl cau'r bleidlais.

Nifer sy'n pleidleisio mewn etholiad

3.34 Y mwyaf yw'r nifer o bleidleisiau a fwrir, yr hiraf y bydd yn ei gymryd i'w cyfrif, os yw'r nifer sy'n pleidleisio yn uwch na ragwelwyd ac/neu os nad oes digon o staff cyfrif wedi'u trefnu i ddelio â'r nifer o bleidleisiau. Ar brydiau, bydd maint lleoliad y cyfrif yn gyfyngiad ar y nifer o staff cyfrif y gellir eu defnyddio. Dylai Swyddogion Canlyniadau gael cynlluniau yn eu lle i liniaru effaith y gall nifer sy'n pleidleisio mewn etholiad sy'n uwch na'r disgwyl ei gael ar yr amser a gymrir i gyfrif pleidleisiau.

Etholiad ymylol

3.35 Gall etholaeth ymylol ble mae'r gystadleuaeth yn agos arwain at nifer uwch yn pleidleisio, gyda mwy o bleidleisiau i'w cyfrif, a galwadau gan ymgeiswyr ac asiantiaid am ailgyfrif. Mae angen i Swyddogion Canlyniadau yn y fath etholaethau ac etholiadau gynnwys amser ar gyfer ailgyfrifiadau posib yn eu cynllunio.

Sicrwydd a diogelwch

3.36 Mae sicrhau sicrwydd a diogelwch staff, ymgeiswyr, asiantiaid ac eraill mewn lleoliadau cyfrif, ynghyd â diogelwch papurau pleidleisio, yn hanfodol i

drefniadaeth y cyfrif. Rhaid i Swyddogion Canlyniadau ystyried yr amgylchiadau ar y pryd, unrhyw fygythiadau neu risgiau penodol y gwyddys amdanynt ac unrhyw asesiadau diogelwch gan yr heddlu. Mae hyn wedi bod yn fater pwysig yng Ngogledd Iwerddon, er enghraifft, ble na chynhaliwyd cyfrifiadau dros nos am resymau diogelwch cyn etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2010. Ar brydiau, felly, gall materion diogelwch gael blaenoriaeth dros unrhyw benderfyniad ar amseriad y cyfrif ac o bosib bydd rhaid i gyfrifiadau gael eu symud hyd yn oed am gam hwyr am resymau diogelwch.

3.37 Pan fydd blychau pleidleisio wedi'u selio yn cael eu derbyn mewn canolfannau cyfrif o orsafoedd pleidleisio, maent naill ai'n cael eu hagor yn fuan ar ôl cyrraedd, neu, os yw dilysu a chyfrif pleidleisiau yn cael ei gynnal yn hwyrach, rhaid eu cadw'n ddiogel. Yn achos cyfrifiadau nad ydynt yn cael eu cynnal tan y diwrnod ar ôl cau'r bleidlais neu'n hwyrach (fel gydag etholiadau Senedd Ewrop) rhaid i Swyddogion Canlyniadau wneud trefniadau ar gyfer storio diogel. Efallai y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â storio blychau pleidleisio, gan gynnwys cludiant blychau pleidleisio os nad ydynt yn cael eu storio yn y canolfannau cyfrif.

Tywydd

3.38 Gan ddibynnu ar yr amser o'r flwyddyn pan fydd y cyfrif yn cael ei gynnal, gall y potensial am dywydd garw fod yn ffactor sy'n effeithio ar ba bryd y caiff pleidleisiau eu cyfrif. Gall achosi anawsterau cludiant wrth gludo'r blychau pleidleisio o orsafoedd pleidleisio ac i staff gyrraedd canolfannau cyfrif, gan gofio bod y teithio yn ystod y nos. O'i gyfuno â daearyddiaeth yr ardal, gall hyn fod yn broblematig ar gyfer pleidleisiau sy'n cael eu cynnal ar amser o'r flwyddyn pan fydd posibilrwydd o amodau gyrru peryglus.

Adnoddau, gan gynnwys staff a lleoliad cyfrif

3.39 Mae argaeledd adnoddau yn cyfyngu ar gynnal cyfrifiadau, gan gynnwys argaeledd lleoliadau addas a'r nifer o staff cyfrif sy'n cael eu cyflogi. Mae cost cyfrif pleidleisiau yn cael ei dalu o gronfeydd cyhoeddus ac mae paramedrau ar gyfer y swm y gellir ei wario ar gyflogi staff a llogi mannau cyfrif i gynnal cyfrifiadau wedi'i nodi mewn deddfwriaeth eilaidd benodol i bob prif etholiad yn y DU[14].

3.40 Gall cyflogi rhagor o staff cyfrif, sy'n weithwyr achlysurol sydd weithiau hefyd yn cael eu cyflogi gan y cyngor lleol mewn capasiti arall, helpu i gwblhau cyfrif yn gynt ond efallai nad yw'n cynnig yr ateb i gwblhau cyfrif cymhleth mewn amser byr. Cyfyngiad sylweddol posib yw argaeledd staff rheoli profiadol gyda hyfforddiant addas i gynnal cyfrifiadau. Er enghraifft, mae Swyddogion Canlyniadau sy'n gyfrifol am ddwy neu fwy o etholaethau (hyd at chwech) fel

[14] Yn achos etholiadau lleol, nid yw cyfyngiadau gwariant wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gwrdd â chostau eu hetholiadau eu hunain.

arfer yn penodi dirprwy Swyddog Canlyniadau, sydd fel arfer yn uwch reolwyr yn awdurdod lleol y Swyddog Canlyniadau. Mewn achosion pan fydd gofyn iddynt weithio drwy'r nos ac i'r diwrnod canlynol yn rheoli cyfrifiadau, tra gellir cyflogi timau ffres o staff cyfrif, gall sicrhau uwch reolwyr â phrofiad addas i gymryd eu lle fod yn anoddach.

3.41 Mae blinder ymysg staff craidd wedi bod yn un o'r prif ffactorau sy'n arwain Swyddogion Canlyniadau i ffwrdd oddi wrth gyfrifiadau dros nos, oherwydd y risg o beryglu cywirdeb y canlyniad. Mae'r sylwadau canlynol yn nodweddiadol o'r rheiny a gafwyd yn dilyn etholiadau cyfun diweddar:

> "Nid wyf yn credu ei fod yn iawn disgwyl i unrhyw un weithio am bron i bedair awr ar hugain heb egwyl. Roeddwn i a sawl cydweithiwr wedi deffro am 5 am ar y diwrnod pleidleisio a heb ddychwelyd adref tan 4 30 am ar y dydd Gwener. Roedd rhaid i mi fod yn ôl yn y swyddfa am 8 am i roi'r canlyniad Seneddol ar y wefan ac yna mynd i'r lleoliad cyfrif. Oherwydd ailgyfrif mewn ward aml-le gwag, ni wnaeth ein cyfrif etholiad cyngor Bwrdeistref orffen tan 6 15 pm ar ddydd Gwener. Mae hynny'n golygu fy mod wedi gweithio am tua 38 o oriau gyda dim ond awr o gwsg" Gweinyddwr etholiadol[15]

> Roedd graddfa'r digwyddiadau'n anodd i'w reoli. Penderfynasom ddilysu ar y nos Iau, a oedd yn gadael y dydd Gwener yn glir ar gyfer y cyfrif lleol yn y bore a chyfrif y refferendwm yn y prynhawn. Yn ymarferol, ychydig iawn o amser oedd rhwng y digwyddiadau. Roedd hyn yn cael effaith waeth ar y Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol a staff allweddol arall, a oedd wedi gweithio 39 o oriau o fore dydd Iau tan nos Wener." Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol[16]

Cyfrif electronig

3.42 Mae cyfrif electronig wedi'i ddefnyddio mewn etholiad Cynulliad Llundain fawr, Senedd yr Alban ac etholiadau lleol, ac mewn cynlluniau peilot llai mewn etholiadau awdurdod lleol o 2000. Mae costau cyfalaf ac adnoddau sylweddol yn rhan o gynllunio a gweithredu cyfrif electronig. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth y DU ynghylch cyfrif electronig[17], yn cynnwys y dylid ymgymryd â chyhoeddi dadansoddiad cost-budd ar gyfer ei ddefnyddio.

---

[15] Association of Electoral Administrators Beyond 2010: *the future of electoral administration in the UK* (July 2010)
[16] Association of Electoral Administrators *The administration of the referendums and elections across the UK in 2011* (Gorffennaf 2011)
[17] The Greater London Authority elections 2008 Report on the administration of the 1 May 2008 elections. Gorffennaf 2008

3.43 Er ein bod yn cydnabod y gellir gwneud achos dros ddefnyddio technoleg i gefnogi prosesau gweinyddol ar sail economaidd, effeithlonrwydd neu gywirdeb, nid yw e-gyfrif bob amser yn cyflenwi'r cyflymder y mae'n ei addo. Er enghraifft, rhagdybiwyd y byddai cyfrif y set ddiwethaf o etholiadau GLA yn 2008 yn cymryd 12 awr o gofrestru'r blychau pleidleisio cyntaf at gyhoeddi'r canlyniadau, ond yn ymarferol cymerodd 15 awr i'w gwblhau.

3.44 Bydd profiad a dadansoddiad pellach o gyfrif electronig ar gael ar ôl etholiadau'r GLA ac etholiadau lleol yn yr Alban ym Mai 2012.

Dulliau cyfrif

3.45 Gall y dull sy'n cael ei ddefnyddio gan y Swyddog Canlyniadau ar gyfer cyfrif pleidleisiau effeithio ar yr amser a gymerir i gyfri'r pleidleisiau. Rydym yn gwybod o ddata a gofndwyd gennym mewn refferenda a gynhaliwyd ym Mawrth a Mai 2011, ble y cafodd gwybodaeth cyfrif ei chydlynu'n ganolog gan y Prif Swyddog Cyfrif, bod awdurdodau lleol neu etholaethau o faint tebyg weithiau'n cymryd gwahanol gyfnodau o amser i gyfrif nifer tebyg o bapurau pleidleisio, er eu bod yn ymddangos fel eu bod yn defnyddio niferoedd tebyg o staff cyfrif. Un ffactor sy'n cyfrif am hyn yw'r rheolaeth, trefniadaeth a dulliau.

3.46 Tra'r ydym yn credu ei bod yn bwysicach cyfrif yn gywir na chyfrif yn gyflym, rydym yn argymell defnyddio dull 'cyfrif bach'. Mae gennym dystiolaeth sy'n dangos bod hwn yn ddull cyfrif effeithlon a chywir ac yn cynnal egwyddorion cyfrif a redir yn dda, gan gynnwys tryloywder.

A oes unrhyw ffactorau cyffredinol eraill sy'n effeithio ar weinyddu cyfrifiadau etholiad?

Safbwyntiau llywodraethau, pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr

3.47 Yn ei hanfod, safbwynt llywodraethau, pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yw,eu bod eisiau gwybod canlyniad prif etholiadau cyn gynted â phosib ar ôl cau'r bleidlais. Mae etholiadau'n rhan hanfodol o'n democratiaeth; gall llywodraethu ar draws y DU barhau neu newid o ganlyniad iddynt a gall canlyniad cystadlaethau unigol gael effaith bersonol ar yrfaoedd a bywoliaeth ymgeiswyr.

3.48 Ar yr un pryd, mae llywodraethau, pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr eisiau'r canlyniad cywir. Nid oes unrhyw un sy'n ymgyrchu mewn etholiad eisiau i ganlyniad brwydr etholiadol arwain at her i'r etholiad drwy ddeiseb i lys etholiad, ac yna ei ddilyn gan isetholiad. Ar y gwaethaf, pan fydd problemau â gweinyddu cyfrif etholiad fawr ar raddfa fwy, gall llai o hyder yn y broses ddemocrataidd fod yn un canlyniad, gyda'r bai'n cael ei roi yn y parth cyhoeddus am fethiannau'r system ar y rheiny sy'n gysylltiedig â'r broses, gan gynnwys gwleidyddion.

3.49 Mae llywodraethau, gwleidyddion amlwg, a'r prif bleidiau gwleidyddol presennol wedi galw'n rheolaidd am gyfrifiadau traddodiadol, dros nos mewn etholiadau i Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Pennod 3 'Datblygiadau diweddar' yn esbonio'r tensiynau penodol sydd wedi digwydd yn yr etholiadau hynny. Mewn rhai achosion, cafodd penderfyniadau Swyddogion Canlyniadau eu gwrthwynebu'n chwyrn a'u beirniadu yn y parth cyhoeddus gan wleidyddion cenedlaethol.

3.50 Mae rhanddeiliaid gwleidyddol yn nodi pwysigrwydd ein traddodiadau gwleidyddol, gan gynnwys y newid symbolaidd y gellir ei weld gan y cyhoedd mewn newid llywodraeth yn gyflym, a'r ddrama sy'n gallu digwydd ar noson etholiad. Er enghraifft:

> "Byddai'n difetha awyrgylch y cyfrif etholiad [cyffredinol] yn llwyr petai'r cyfrif yn cael ei wneud ar y diwrnod canlynol."[18]

> "Rwyf yn draddodiadol yn nhermau meddwl bod y noson etholiad yn rhan o'r broses. Mae'n rhywbeth sy'n denu pobl i edrych ar wleidyddiaeth ble na fyddant yn gwneud hynny fel arfer."[19]

> "Mae cysondeb o safbwynt amseru cyfrifiadau yn gwbl gyfiawn ar gyfer etholiadau cyffredinol – yn wahanol i etholiadau lleol – gan fod yr etholiad cyffredinol yn broses drwy'r DU ar gyfer un corff cenedlaethol."[20]

3.51 Pwynt arall a godwyd gan wleidyddion a phleidiau gwleidyddol yng nghyd-destun etholiadau i Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yw cydraddoldeb gydag etholiadau i Senedd y DU. Gan fod Etholiadau Cyffredinol Senedd y DU yn cael eu cyfrif dros nos, mae'n cael ei ystyried yn bwysig bod etholiadau i'r cyrff datganoledig yn cael eu cyfrif dros nos. Ar y lleiaf, maent wedi dadlau dros ddull cyson. Ym mhob un o'r tri chorff, mae newid mewn llywodraeth genedlaethol yn y fantol.

> "Mae hwn yn etholiad cyffredinol i Gymru a chredwn ei fod yn anghywir i bobl Gogledd Cymru gael eu trin yn wahanol, o safbwynt clywed canlyniadau lleol yn yr etholiad pwysig yma..Os y ceir oedi gyda datganiadau Gogledd Cymru, yna bydd canlyniad cyflawn etholiad cyffredinol Cymru yn cael ei oedi. Nid ydym yn credu bod oedi o'r fath yn dderbyniol i bobl Cymru yn eu cyfanrwydd - nid rhywbeth i bobl Gogledd Cymru'n unig yw hwn." [21]

---

[18] Yorkshire Evening Post, yn dyfynnu AS Llafur Fabian Hamilton, 12 Medi 2009
[19] Ibid.
[20] Cadeirydd y Blaid Geidwadol ar y pryd, Eric Pickles AS, wedi ei ddyfynnu yn y Daily Telegraph, 15 Medi 2009
[21] Llythyr gan arweinyddion Llafur Cymru,Plaid Cymru, Ceidwadwyr Cymru, a'r Democratiaid Rhyddfrydol, i Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol Gogledd Cymru, 14 Ebrill 2011

3.52 Er y gall etholiadau arwain at ddim mwyafrif cyffredinol a phosibilrwydd na fydd llywodraeth newydd yn ei lle am sawl diwrnod ar ôl etholiad, mae uwch wleidyddion yn sôn ei bod yn ddymunol cychwyn yn brydlon ar unrhyw ystyriaeth o lywodraethu gan leiafrif neu gychwyn trafodaethau clymblaid.

3.53 Yng Ngogledd Iwerddon, ble nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i gyfrif pleidleisiau mor fuan ag sy'n ymarferol bosib ar ôl cau'r bleidlais, ond ble bo gofyniad i gyfrif yn barhaus cyn belled ag y mae'n ymarferol (yn destun i egwyl), mae pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a'r cyfryngau wedi teimlo rhwystredigaeth ynghylch yr amser a gymerwyd i gwblhau cyfrifiadau a chyhoeddi canlyniadau.

3.54 Mewn rhai achosion, mae beirniadaeth gan wleidyddion cenedlaethol wedi bod am yr hyn maent yn ei weld fel methiant Swyddog Canlyniadau i ystyried pwysigrwydd cenedlaethol etholiadau a chanolbwyntio i raddau helaeth ar faterion o broses etholiadol ar lefel leol. Ar brydiau maent wedi mynegi pryderon am fethiant Swyddog Canlyniadau i gael deialog â gwleidyddion ar lefel genedlaethol.

3.55 Mae pryderon wedi bod hefyd nad yw Swyddogion Canlyniadau wedi rhoi rhesymau dros eu penderfyniadau nes iddynt gael eu herio ar ôl gwneud y penderfyniad, a hyd yn oed wedyn, esboniad cyfyngedig a roddant. Yn rhannol, achosodd y materion hyn i Senedd y DU gyflwyno gofyniad i'r Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU roi adroddiad i'r Comisiwn Etholiadol os nad ydynt yn dechrau cyfrif o fewn pedair awr ar ôl cau'r bleidlais.

3.56 Mae Swyddogion Canlyniadau yn eu tro'n dweud bod gwleidyddion cenedlaethol yn methu ymgysylltu na deall heriau penodol a wynebir wrth gyflenwi canlyniadau etholiad cywir dros nos. Mae Swyddogion Canlyniadau'n teimlo wedi'u tramgwyddo oherwydd y pwysau gwleidyddol a deimlant sy'n creu perygl cynyddol i gywirdeb canlyniadau.

3.57 Ni fu'r senario hwn mor amlwg fodd bynnag mewn etholiadau lleol. Mae etholiadau lleol yn ymwneud yn bennaf â chanlyniadau lleol, er wrth gwrs mae canlyniad etholiadau lleol yn eu cyfanrwydd yn bwysig yn genedlaethol i ffawd y pleidiau gwleidyddol a llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i'r graddau y gall canlyniadau adlewyrchu safbwyntiau pleidleiswyr ar lywodraethu cenedlaethol.

3.58 Ffactor pwysig arall mewn etholiadau lleol yw bod arweinwyr pleidiau gwleidyddol a chynghorwyr lleol yn ymgysylltu'n rheolaidd â Phrif Weithredwyr awdurdod lleol, y rhan fwyaf ohonynt yn Swyddogion Canlyniadau mewn etholiadau lleol, fel y gellir cael gwell deialog leol ynghylch amseru cyfrif etholiadau yng nghyd-destun amgylchiadau lleol. Gellir maintioli'r nifer o etholiadau, ynghyd â'r nifer o gystadlaethau ac ymgeiswyr, er enghraifft, ar lefel leol yn yr un modd â ffactorau fel daearyddiaeth leol. Mae nifer cynyddol o gyfrifiadau etholiad lleol wedi eu cynnal y diwrnod ar ôl cau'r bleidlais, yn dilyn deialog neu ymgynghoriad

rhwng Swyddogion Canlyniadau, ymgeiswyr a phleidiau'n lleol, heb wrthwynebiad gwleidyddol sylweddol. Yn yr Alban, nid yw cyfrifiadau etholiad lleol wedi'u cynnal dros nos ers 1995 (gydag eithriad is-etholiadau).

3.59 Yng Ngogledd Iwerddon mae gan y Prif Swyddog Etholiadol rym i gyfarwyddo Prif Weithredwyr cynghorau lleol (sy'n gweithredu fel dirprwy Swyddogion Canlyniadau ar gyfer etholiadau lleol) ynghylch pryd i gychwyn eu cyfrifiadau. Ble fo etholiad lleol annibynnol, bydd y cyfrifiadau fel arfer yn cael eu cynnal dros y ddau ddiwrnod yn dilyn cau'r bleidlais. Fodd bynnag, pan fydd etholiadau'n cael eu cyfuno, fel y cawsant ym Mawrth 2011, maent yn cael eu cynnal ar y dydd Llun a dydd Mawrth canlynol ar ôl y diwrnod pleidleisio.

A oes unrhyw safbwyntiau sylweddol eraill gan lywodraethau, ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol ar gyfrifiadau etholiad?

Darlledu canlyniadau etholiad

3.60 Yn draddodiadol, y prif ffordd y mae'r cyhoedd yn ymgysylltu ac yn cael gwybodaeth am ganlyniadau etholiad yw drwy raglenni a darllediadau canlyniadau etholiad pwrpasol a chyfryngau newyddion eraill. Mae canlyniadau'n awr ar gael ar-lein drwy wefannau sefydliadau newyddion, gwefannau awdurdod lleol, ac yn gynyddol drwy gyfryngau cymdeithasol fel Twitter, yn cynnwys gan yr ymgeiswyr eu hunain.

3.61 Mae angen i ddarlledwyr gynllunio eu rhaglenni canlyniadau ac ymdriniaeth o'r etholiad ac yn gyffredinol geisio cael penderfyniadau cynnar gan Swyddogion Canlyniadau i hwyluso hyn. Gall cynllunio gael ei wneud yn fwy cymhleth gan benderfyniadau hwyr neu orfod cael eu seilio ar dybiaethau.

3.62 Mae gwleidyddion yn aml yn nodi rhaglenni canlyniadau noson etholiad fel ymgorfforiad o'r hyn y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl, ac sy'n gymorth i gadw'r cyhoedd ynghlwm wrth y broses ddemocrataidd. Gall rhaglenni canlyniadau greu lefel o gynnwrf pan fydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd yn gyflym ar ôl ei gilydd ond hefyd gallant fod yn llawn o gyfnodau maith o sylwebaeth a dadansoddiad cyn i unrhyw ganlyniadau gwirioneddol gyrraedd.

3.63 Tystiolaeth gymharol fach sydd yn y parth cyhoeddus ynghylch ffigyrau gwylio ar gyfer rhaglenni canlyniadau a ddarlledir, ac nid yw'n bosib gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng rhaglenni canlyniadau noson etholiad a rhaglenni yn ystod y dydd gan nad oes unrhyw enghreifftiau o raglenni canlyniadau sy'n trafod etholiadau mawr wedi'u darlledu'n bennaf yn ystod y dydd.

3.64 Mae gennym beth tystiolaeth gymharol sy'n ymwneud â digwyddiadau gwleidyddol a ffigyrau gwylio yng Nghymru. Ceisiodd y Prif Swyddog Cyfrif (Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol) safbwyntiau ynghylch cyfrif yn ystod y

dydd ar gyfer y refferendwm a gynhaliwyd yng Nghymru ar 3 Mawrth 2011, yn cynnwys gan ddarlledwyr. Wrth geisio'r safbwyntiau, awgrymodd y gallai cyfrif yn ystod y dydd roi gwell cyfle i sicrhau bod cyhoeddi'r canlyniad yn ddigwyddiad democrataidd ynddo'i hun, y gellid ei ddangos ar y cyfryngau yng Nghymru. Byddai hyn yn sicrhau mwy o fynediad cyhoeddus at y broses.

3.65 Dywedodd BBC Cymru, yn ei ymateb i'r Comisiwn, y byddai'r "gynulleidfa gyfartalog yn ystod y rhaglen ganlyniadau'n llawer uwch petai'r cyfrif ar ddydd Gwener ….yn ystod y prif slot canlyniadau tebygol o tua 4am/4pm, gallai'r gynulleidfa deledu fod o leiaf dair gwaith yn uwch". Roedd y BBC hefyd yn disgwyl y byddai'r effaith i gynulleidfaoedd S4C yr un fath, er ar raddfa lai ac y byddai'r gynulleidfa radio gyfartalog yn "llawer uwch i gyfrif dydd na chyfrif gyda'r nos".

3.66 Rhoddodd ITV Wales asesiad tebyg o'r gynulleidfa debygol ar gyfer rhaglen ganlyniadau wrth gymharu hwyr y prynhawn gydag oriau mân y bore.

3.67 Ar ôl y refferendwm, rhoddodd BBC Cymru ffigyrau gwylio i ni ar gyfer eu rhaglenni canlyniadau refferendwm, gan gymharu'r rhaglen ganlyniadau refferendwm yn ystod y dydd â rhaglen ganlyniadau etholiad yn hwyr y nos. Roedd y gynulleidfa yn ystod y brif ffenestr ganlyniadau o 2-3 pm ar 4 Mawrth yn 70,000 ar BBC1 Cymru ac 11,000 ar S4C. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd y gynulleidfa ar gyfer canlyniadau etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2010 yn llawer is. Pan oedd y rhan fwyaf o'r canlyniadau etholiad cyffredinol yn cyrraedd, rhwng 2 30 a 3 30 am ar 7 Mai, roedd y gynulleidfa yn 15,000 ar BBC1 Cymru a 2,000 ar S4C. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd y nifer o bleidleiswyr a bleidleisiodd yn 37% yn y refferendwm o'i gymharu â 65% yng Nghymru yn yr etholiad cyffredinol.

3.68 Ar gyfer refferendwm Cymru, gwnaethom hefyd ddatblygu gwefan un-pwrpas i gyhoeddi, mewn amser gwirioneddol, y cyfansymiau o bob ardal bleidleisio a sut yr oedd y rhain yn ychwanegu at y canlyniad refferendwm cyffredinol wrth i'r cyfrif fynd yn ei flaen. Ar 4 Mawrth, ymwelwyd â'r wefan dros 7,000 o weithiau yn ystod y dydd, gydag amser ymweliad cyfartalog o 13 munud.

Byddem yn croesawu'n arbennig safbwyntiau darlledwyr a sefydliadau newyddion ar amseriad a maint y gynulleidfa ar gyfer y newyddion am ganlyniadau etholiad.

Pa effaith allai cyfrifiadau yn ystod y dydd eu cael ar fynediad cyhoeddus at ganlyniadau etholiad drwy ddarllediad rhaglenni newyddion?

Barn y cyhoedd

3.69 Mae'n debygol mai maint cynulleidfa gan sefydliadau darlledu a newyddion yw'r dangosydd gorau sydd ar gael o ddiddordeb cyhoeddus mewn canlyniadau etholiad. Nid oes unrhyw ymchwil barn gyhoeddus ddiweddar neu dystiolaeth arall ar safbwyntiau cyhoeddus ynghylch pryd y

cynhelir cyfrifiadau etholiad. Rydym ni ein hunain yn comisiynu ymchwil o farn gyhoeddus ynghylch profiad pobl o etholiadau ac rydym wedi comisiynu ymchwil ynghylch ymdriniaeth y cyfryngau o'r etholiadau cyfun a gynhaliwyd ym Mai 2011, ond nid oes dim o hyn yn ymwneud yn benodol ag amseru cyfrif etholiadau.

3.70 Ar amser etholiad, dim ond nifer fechan iawn o ymholiadau cyhoeddus y mae'r Comisiwn yn eu derbyn ynghylch amseru cyfrif etholiadau, hyd yn oed pan fydd ymdriniaeth cyfryngau parhaus ynghylch materion amseru cyfrif, ac mae Swyddogion Canlyniadau yn dweud wrthym eu bod nhw yn yr un modd yn derbyn nifer isel iawn o ymholiadau cyhoeddus ynghylch y mater. Mae darlledwyr teledu a radio o dro i dro yn cynnal 'vox pops' a rhaglenni ffonio'i mewn ar y radio sy'n trafod dadleuon penodol am amseru cyfrif etholiadau, ond dim ond cipolwg bychan ac anwyddonol iawn y gall y rhain eu cyfleu o farn y cyhoedd ar y mater.

Rydym yn croesawu unrhyw farn gyffredinol gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch pryd y dylid cynnal cyfrifiadau etholiad.

4 Ffyrdd ymlaen

4.1 Yn ei barn ni, mae o fudd i bleidleiswyr bod gweithredu'n digwydd i osgoi cecru dros amseru cyfrif etholiadau ychydig cyn i etholiadau ddigwydd. Pan gyhoeddir hysbysiad etholiad gan Swyddogion Canlyniadau neu gyflwyno gwrit ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU, sy'n rhoi arwydd o gychwyn ffurfiol yr ymgyrch etholiad, ni ddylid bod angen am ddadl yn y parth cyhoeddus ynghylch pryd mae pleidleisiau i gael eu cyfrif. Yn ystod ymgyrch etholiad, dylai pleidleiswyr fedru ffocysu ar faterion o sylwedd yn yr etholiad. Dylai darlledwyr fedru cynllunio ymhell o flaen llaw sut y byddant yn cyfathrebu canlyniadau'r etholiad.

4.2 Yn y bennod hon, byddwn yn ceisio barn ar ffyrdd posib ymlaen i gyflawni hyn, yn enwedig yng nghyswllt:

- Etholiadau Cyffredinol Senedd y DU
- Etholiadau Senedd Ewrop
- Etholiadau Senedd yr Alban
- Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Etholiadau lleol

4.3 Rydym hefyd yn edrych ymlaen at yr etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throsedd sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer Tachwedd 2012 a digwyddiadau etholiadol i'r dyfodol.

Etholiadau cyffredinol Senedd y DU

4.4 Mae sgôp gwneud penderfyniadau'r Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU eisoes wedi ei ragnodi, yn yr ystyr bod gofyn iddynt gychwyn y cyfrif o fewn pedair awr o gau'r bleidlais neu adrodd i'r Comisiwn Etholiadol eu rhesymau dros fethu â gwneud hynny. Cafwyd y gofyniad hwn, sef newid yn y gyfraith, ar ôl dadl sylweddol yn y Senedd yn 2010.

4.5 Oherwydd y newid hwn, mae'r sefyllfa ynglŷn ag amseru'r cyfrifiadau i bob pwrpas eisoes wedi ei datrys, serch ei bod trwy newid yn y gyfraith o ganlyniad i ddadl wleidyddol yn hytrach na thrwy gonsensws yn cynnwys y Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol).

4.6 Yn ein barn ni, gallai'r gofyniad fod yn broblematig petai etholiad cyffredinol yn cael ei gyfuno gyda math arall o etholiad neu os, er enghraifft, bod newid yn y system etholiadol neu newid sylweddol i'r broses etholiadol. Gallai pa mor rhwydd yw gweithredu'r fath ofyniad ddibynnu ar y rheolau cyfuniad neilltuol neu sut y cyflwynwyd y broses etholiadol - gallai newid proses fod angen diwygiad i reolau'r etholiad beth bynnag.

A ddylai'r gofyniad i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) mewn etholiadau cyffredinol Senedd y DU gychwyn cyfrif o fewn pedair awr o gau'r bleidlais gael ei ailystyried yn achos etholiadau cyfun neu newid sylweddol i'r broses etholiadol?

Etholiadau Senedd Ewrop

4.7 Ni chaiff canlyniadau Etholiadau Senedd Ewrop eu cyhoeddi tan ar ôl cau'r bleidlais ar draws Ewrop. Mae'n ymarfer cyffredin i swyddogion canlyniadau rhanbarthol Senedd Ewrop (Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol) ym Mhrydain Fawr fabwysiadu amser cyffredin ar gyfer cyfrif pleidleisiau fel y gellir cyhoeddi'r rhan fwyaf o ganlyniadau gyda'r nos Sul ar ôl cau'r bleidlais[22]. Oherwydd natur pan-Ewropeaidd y bleidlais, mae'n anochel bod swyddogion Llywodraeth y DU yn gysylltiedig â thrafodaethau cynllunio gyda Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

[22] Yn yr Alban, nid yw bob Swyddog Canlyniadau lleol yn cyfrif ar y nos Sul, sy'n golygu nad yw canlyniadau wedi bod ar gael tan y bore Llun ar ôl cau'r bleidlais. Nid yw Gogledd Iwerddon yn cychwyn cyfrif tan y bore Llun yn dilyn cau'r bleidlais.

4.8 Mae gan Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol Senedd Ewrop bŵer cyfarwyddo i gael mwy o gysondeb, y gallant eu defnyddio i gyfarwyddo Swyddogion Canlyniadau lleol ynghylch amseru cyfrifiadau lleol.

4.9 Os yw etholiad Senedd Ewrop yn cael ei gyfuno gydag unrhyw ddigwyddiad etholiadol arall, fel etholiad neu refferendwm arall, byddai'n bwysig datrys y cwestiwn o bryd y dylid cyfri'r pleidleisiau ar gam cynnar. Yn ein barn ni, fodd bynnag, gellir cyflawni hyn drwy ymarfer presennol, a bwrw bod y rheolau ar gyfer y digwyddiad etholiadol cyfun yn addas a digonol ac yn eu lle o leiaf chwe mis cyn cynnal y digwyddiad cyfun.

A oes angen unrhyw newid i'r ymarfer presennol o gyrraedd penderfyniadau ynghylch amseru cyfrifiadau etholiad Senedd Ewrop?

Cynulliad Gogledd Iwerddon

4.10 Ar ôl etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon yn 2011, gwnaeth y Prif Swyddog Etholiadol ymrwymiad i gynnal arolwg llawn o'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer rheoli etholiadau a chynnal cyfrifiadau yng Ngogledd Iwerddon ac i adrodd ar hyn yn 2012. Roeddem yn croesawu hyn. Yn ein barn ni, roedd yr anawsterau a gafwyd yn etholiadau Mai yn ei gwneud yn hanfodol fod cylch gorchwyl yr adolygiad yn ddigon eang i ymdrin â'r diffygion a ddynodwyd wrth gynnal y cyfrif. Un o'r allbynnau ddylai fod cynllun gweithredu wedi ei amserlennu ac adnoddau ar ei gyfer er mwyn gwella cyflenwad etholiadau a chyfrifiadau yng Ngogledd Iwerddon i'r dyfodol. Mae'r Prif Swyddog Etholiadol yn bwriadu ymgynghori â'r pleidiau gwleidyddol ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cyfrif Cynulliad.

Gan fod adolygiad ar gyfer trefniadau rheoli etholiadau a chynnal cyfrifiadau yng Ngogledd Iwerddon yn mynd yn ei flaen, ni ystyriwn fod angen rhagor o weithredu ar y cam hwn. Fodd bynnag bwriadwn gyhoeddi adroddiad cynnydd ar adolygiad y Prif Swyddog Etholiadol yn Hydref 2012.

Senedd yr Alban

4.11 Yng nghyswllt etholiadau i Senedd yr Alban mae'r Cynullydd Etholiadau wedi ceisio cynnwys pleidiau gwleidyddol ar lefel genedlaethol mewn materion sy'n ymwneud ag amseru'r cyfrif, mynegi a chydlynu barn y Swyddogion Canlyniadau. Yn arwain i fyny at etholiad Senedd yr Alban 2011 paratôdd bapur, ar ran y Swyddogion Canlyniadau, i Banel Pleidiau Gwleidyddol Senedd yr Alban, yn gosod allan y manteision ac anfanteision o gyfrif dros nos a chyfrif diwrnod wedyn a'r ffactorau roedd Swyddogion Canlyniadau yn eu cymryd i ystyriaeth wrth gyrraedd eu penderfyniadau (gweler Pennod 3). Mae'r Panel yn cynnwys cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol yn Senedd yr Alban, ynghyd â swyddogion Llywodraeth yr Alban a Swyddfa'r Alban, y Bwrdd Rheoli Etholiadol, y Comisiynau Ffiniau, y Post Brenhinol, a'r Comisiwn Etholiadol.

4.12 Er na wnaeth hyn osgoi dadl, gan fod Swyddogion Canlyniadau yn dal i deimlo dan bwysau gwleidyddol i gyfrif dros nos, gwnaeth gyflawni peth eglurder cyn yr etholiad.

4.13 Dylai deialog i'r dyfodol gael ei hysbysu gan amgylchiadau penodol yr etholiad, er enghraifft, p'un a oes unrhyw newid proses sylweddol. Mae hefyd yn bwysig cyrraedd datrysiad ymhell cyn etholiad, hynny yw ddim hwyrach nag Ionawr yn y flwyddyn pe cynhelir etholiad ym Mai, ac rydym yn cydnabod fod y Cynullydd Etholiadau wedi ceisio gwneud hyn.

4.14 Gellid cryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer deialog gyda phleidiau gwleidyddol trwy gymryd i ystyriaeth faterion a godir yn y papur hwn. Gellid ehangu'r drafodaeth, gan adeiladu ar fentrau blaenorol, i gynnwys barn partïon â diddordeb yn gynnar yn y broses gynllunio, fel darlledwyr a sefydliadau newyddion yn yr Alban.

A oes angen unrhyw newid i'r ymarfer presennol o gyrraedd penderfyniadau, a arweinir gan y Cynullydd Etholiadau, ynghylch amseru cyfrifiadau etholiad Senedd yr Alban?

Pa farn arall y gellid ei cheisio, a sut ddylid gwneud hyn?

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

4.15 Yng nghyswllt etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, nid oes swyddog statudol na chydlynydd etholiad gyda phŵer cyfarwyddo er mwyn cyflawni mwy o gysondeb. Mae Grŵp Cynllunio Etholiadau Cymru, a gynullir gan swyddogion Llywodraeth Cymru, yn gorff rhannu gwybodaeth yn bennaf, ac yn cynnwys cynrychiolwyr y Swyddogion Canlyniadau, gweinyddwyr etholiadol, pleidiau gwleidyddol a'r Comisiwn. Ymhellach, mae gan Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddogion Canlyniadau drafodaethau cynllunio, a hwylusir gan y Comisiwn, ble trafodir amseru'r cyfrif. Nid oes arfer sefydledig o geisio barn neu ddeialog gydag uwch gynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol fel y cyfryw, na gyda darlledwyr.

4.16 O fewn y fforymau ac ymarfer presennol ar gyfer cynllunio etholiadau, byddai'n bosib ceisio barn cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol a darlledwyr a sefydliadau newyddion yng Nghymru, i hysbysu penderfyniadau'r Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddogion Canlyniadau. Byddai hynny'n cryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau. Hefyd dylai deialog i'r dyfodol gael ei hysbysu gan amgylchiadau penodol yr etholiad, er enghraifft, p'un a oes unrhyw newid proses sylweddol neu gyfuniad o etholiadau.

4.17 Yn arbennig, dylid cymryd penderfyniadau ymhell cyn cychwyn ymgyrch etholiad, hynny yw erbyn Ionawr ar gyfer etholiad a gynhelir y mis Mai canlynol. Dylai Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol rannu'r rhesymau dros eu penderfyniadau ar lefel genedlaethol yn ogystal â lleol ynglŷn â phryd y bydd cyfrifiadau'n digwydd yn eu rhanbarthau.

4.18 Fodd bynnag, nid oes swyddog statudol yng Nghymru gyda chyfrifoldeb am gydlynu etholiad y Cynulliad yn debyg i'r Cynullydd Etholiadau yn yr Alban neu Swyddogion Canlyniadau Llundain Fawr ac felly nid oes un arweinydd unigol ymhlith Swyddogion Canlyniadau. Gellid cychwyn deialog a chyrraedd penderfyniadau trwy naill ai:

- I'r pum Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol arwain deialog yn gasgliadol a cheisio cyrraedd consensws ar draws y rhanbarthau yn dilyn y farn a dderbynnir; neu

- Gallai newid deddfwriaethol gyflwyno pŵer cyfarwyddo i gael mwy o gysondeb, i'w roi i swydd cydlynydd neu gynullydd etholiadau y byddai hefyd angen ei sefydlu; neu i'r Comisiwn Etholiadol, yn debyg i sefyllfa'r Prif Swyddog Cyfrif yn refferendwm Cymru

Beth yw eich barn ar ddefnyddio fforymau ac ymarfer presennol ar gyfer cynllunio etholiadau yng Nghymru i geisio barn cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol a darlledwyr a sefydliadau newyddion yng Nghymru, i hysbysu penderfyniadau Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddogion Canlyniadau?

A ddylai'r pum Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol arwain deialog yn gasgliadol a cheisio cyrraedd consensws ar draws y rhanbarthau yn dilyn y farn a dderbynnir?

Neu a ddylid cael newid deddfwriaethol i gyflwyno pŵer cyfarwyddo er mwyn cael mwy o gysondeb?

Os felly, a ddylid gosod y pŵer cyfarwyddo hwnnw mewn swydd newydd cydlynydd neu gynullydd etholiadau y byddai angen ei sefydlu; neu i'r Comisiwn Etholiadol, yn debyg i sefyllfa'r Prif Swyddog Cyfrif yn refferendwm Cymru?

4.19 Yng ngoleuni'r hyn a ddigwyddodd yn 2011, mae'n glir y byddai'n well gan arweinwyr gwleidyddol i'r pum rhanbarth etholiadol yng Nghymru gytuno i gychwyn cyfrif ar yr un pryd. Fodd bynnag, gallai hynny olygu fod cyfrifiadau yn fwy tebygol o ddigwydd y diwrnod ar ôl cau'r bleidlais yn hytrach na dros nos, gan fod rhai Swyddogion Canlyniadau mewn ardaloedd gwledig yn bennaf yn ystyried nad yw cwblhau cyfrif etholaeth a rhanbarthol cyn amser brecwast yn realistig, o ystyried derbyn blychau pleidleisio o orsafoedd pleidleisio pell, hyd yn oed heb ddigwyddiad etholiadol cyfun arall.

A ddylai'r pum rhanbarth etholiadol yng Nghymru bob amser gychwyn cyfrif ar yr un pryd, hyd yn oed os yw hynny'n golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd cyfrifiadau'n digwydd y diwrnod ar ôl cau'r bleidlais?

Etholiadau lleol yn Lloegr a Chymru

4.20 Yng nghyswllt etholiadau lleol yn Lloegr ac etholiadau lleol yng Nghymru, nodwyd gennym ym Mhennod 3 ei bod yn ymddangos fod gwleidyddion a phleidiau gwleidyddol yn fwy tebygol o dderbyn fod penderfyniadau lleol ar amseru cyfrif etholiadau yn fwy priodol. Mae etholiadau lleol yn bennaf yn ymwneud â chanlyniadau lleol, er wrth gwrs fod canlyniad etholiadau lleol yn eu cyfanrwydd yn bwysig yn genedlaethol i ffawd pleidiau gwleidyddol a'r DU a llywodraethau datganoledig y DU i'r graddau fod canlyniadau'n medru adlewyrchu barn y pleidleiswyr ar lywodraethu cenedlaethol.

4.21 Mae'n parhau'n bwysig i Swyddogion Canlyniadau ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid lleol, fel bod deialog leol wybodus ynghylch amseru cyfrif etholiadau yng nghyd-destun amgylchiadau lleol. Mae nifer cynyddol o gyfrifiadau etholiad lleol wedi digwydd y diwrnod ar ôl cau'r bleidlais, yn dilyn deialog neu ymgynghoriad rhwng Swyddogion Canlyniadau, ymgeiswyr a phleidiau'n lleol, heb wrthwynebiad gwleidyddol sylweddol.

4.22 Erbyn i ni gyhoeddi unrhyw argymhellion a wnawn o ganlyniad i dderbyn ymatebion i'r Papur Materion hwn yng nghanol-Mawrth 2012, mae'n debyg y bydd penderfyniadau wedi eu gwneud ynghylch amseriad y cyfrifiadau mewn etholiadau lleol yn Lloegr ac ar draws Cymru, ac felly ni fyddant yn cael eu heffeithio gan unrhyw argymhellion y gallwn eu gwneud. Gobeithiwn, fodd bynnag, y bydd rhai o'r materion a godir yn y papur hwn yn dylanwadu ar y ffordd y gwneir penderfyniadau ar gyfer yr etholiadau ym Mai 2012.

A oes angen unrhyw newid i'r ymarfer presennol ynghylch pennu amseru cyfrifiadau mewn etholiadau lleol yn Lloegr ac etholiadau lleol yng Nghymru?

Etholiadau lleol yn yr Alban

4.23 Cafodd yr etholiadau lleol yn yr Alban o 1999 i 2007 eu cynnal ar yr un diwrnod ag etholiadau Senedd yr Alban. Cafodd yr etholiad cyffredin annibynnol diwethaf o gynghorwyr ei gynnal yn1995. Felly bydd yr etholiadau lleol sydd i'w cynnal ar 3 Mai 2012 yr etholiadau annibynnol cyntaf ers 17 o flynyddoedd.

4.24 Oherwydd y cysylltiad ag etholiadau Senedd yr Alban, mae cyfrifiadau ar gyfer etholiadau lleol ers 1999 wedi eu cynnal yn ystod y diwrnod ar ôl cau'r bleidlais (Dydd Gwener). Datblygodd y sail dros hyn o gytundeb gwirfoddol, yn ddiweddar, i ddarpariaeth ddeddfwriaethol. Mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer etholiadau 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau wneud darpariaeth mor fuan ag y mae'n ymarferol ar ôl cau'r bleidlais ar gyfer cyfrif pleidleisiau mewn dull electronig.

4.25 Yr etholiadau yn 2012 hefyd fydd yr etholiadau lleol cyntaf y mae'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a'r Cynullydd Etholiadau yn eu lle ar sail statudol. Dealla'r Comisiwn fod y Cynullydd Etholiadau yn bwriadu ymgynghori â Phanel Pleidiau Gwleidyddol Senedd yr Alban, Cosla ac eraill ar amseru cyfrifiadau lleol yr Alban

cyn cymryd safbwynt ar ddyddiad cynnar er mwyn galluogi cynllunio effeithiol. Bydd yr ymgynghoriad hwnnw'n cynnwys trafodaeth o'r holl ffactorau perthnasol sy'n wynebu'r etholiad gan gynnwys y defnydd o dechnoleg e-gyfrif.

4.26 Erbyn i ni gyhoeddi unrhyw argymhellion a wnawn o ganlyniad i dderbyn ymatebion i'r Papur Materion hwn yng nghanol-Mawrth 2012, mae penderfyniadau'n debygol o fod wedi eu gwneud eisoes ynghylch amseru cyfrifiadau mewn etholiadau lleol yn yr Alban ac felly ni fyddant yn cael eu heffeithio gan unrhyw argymhellion y gallwn eu gwneud. Gobeithiwn, fodd bynnag, y bydd rhai o'r materion a godir yn y papur hwn yn dylanwadu ar y ffordd y gwneir penderfyniadau ar gyfer yr etholiadau ym Mai 2012.

Buasem yn awgrymu fod yr EMB yn ymgymryd â phroses ymgynghori lawn a chynhwysol cyn gwneud penderfyniad ynghylch amseru cyfrifiadau gan gymryd gwersi o'r broses ymgynghorol a wnaethpwyd ynghynt a'i hysbysu gan faterion yn y papur hwn.

Etholiadau Cynulliad Llundain Fawr

4.27 Mae Swyddogion Canlyniadau Llundain Fawr (GLRO) wedi seilio penderfyniadau ar amseru cyfrif etholiadau yn dilyn ymgynghoriad gyda'i grŵp llywio etholiadau. Cyn etholiadau 2008, cyd-gysylltodd y GLRO gyda phleidiau gwleidyddol a darpar ymgeiswyr annibynnol yn y cyfnod yn arwain i fyny at yr etholiadau a hefyd roedd ganddo gynlluniau wedi eu cymeradwyo gan Bwyllgor Adolygu Etholiadau GLA.

4.28 Ers mabwysiadu e-gyfrif yn 2008, mae'r GLRO a Swyddogion Canlyniadau Etholaethau wedi ystyried mai'r unig ddewis ymarferol oedd cychwyn cyfrif ar sail gydlynol ar y bore Dydd Gwener ar ôl cau'r bleidlais. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y ffaith fod angen cludo'r holl flychau pleidleisio o'r etholaethau, sy'n cynnwys dwy i bedair bwrdeistref, i leoliad cyfrif canolog.

4.29 Mae'n parhau'n bwysig fod deialog gyda phleidiau gwleidyddol lleol, ymgeiswyr ac asiantiaid yn parhau fel bod pawb sydd â diddordeb yn wybodus ynghylch pryd fydd y cyfrif yn cychwyn a'r amser tebygol a gymerir i gyfrif y pleidleisiau.

A oes angen unrhyw newid i'r ymarfer presennol ynghylch pennu amseru cyfrifiadau yn etholiadau Cynulliad Llundain Fawr?

Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throsedd

4.30 Bwriada Llywodraeth y DU gynnal etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn Lloegr a Chymru ar 15 Tachwedd 2011, gan ddefnyddio'r system Bleidlais Atodol etholiadol. Bydd yn bwysig fod Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu'n ystyried amseru cyfrif etholiadau mor fuan â phosib pan fo'r rheoliadau

ar gyfer cynnal yr etholiadau hynny wedi'u cwblhau. Mae nifer o ffactorau arwyddocaol yng nghyswllt yr etholiadau hynny, gan gynnwys:

- Nid yw pleidleiswyr tu allan i Lundain wedi arfer â'r system Bleidlais Atodol
- Yn yr un modd, nid yw Swyddogion Canlyniadau a'u staff tu allan i Lundain wedi cyfrif pleidleisiau gan ddefnyddio Pleidlais Atodol (SV) o'r blaen
- Golyga natur neilltuol SV ei bod yn hanfodol cydlynu amseru'r cyfrifiadau ar draws yr ardaloedd heddluoedd, oherwydd ni ellir cadarnhau na chwblhau unrhyw gyfrif ail gam hyd nes bo'r canlyniadau cychwynnol i mewn o'r holl awdurdodau lleol o fewn yr ardal heddlu.
- Fodd bynnag, efallai nad yw awdurdodau lleol o fewn yr ardaloedd etholiadol wedi amseru'r cyfrif mewn modd cydlynol gydag unrhyw awdurdodau lleol eraill yn yr ardal etholiadol honno o'r blaen. Ymhellach, mae'r ardaloedd etholiadol mewn rhai achosion yn wahanol i ranbarthau etholiadol a ddefnyddir i etholiadau eraill, gyda Swyddogion Canlyniadau Ardal gwahanol. Felly ni ddefnyddir rhwydweithiau cyfathrebu rhanbarthol a lleol sydd eisoes wedi cael eu defnyddio a'u profi ym mhob achos.
- Nid yw'r etholiadau'n cynnwys dychwelyd llywodraeth
- Gall nifer o ymgeiswyr fod yn newydd i etholiadau a phrosesau etholiadol

Rydym yn argymell fod Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd Heddluoedd yn ystyried amseru cyfrif etholiadau mor fuan â phosib pan fo'r rheoliadau ar gyfer cynnal etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throsedd hynny wedi'u cwblhau, gan gymryd i ystyriaeth y materion a godwyd yn y papur hwn.

Edrych ymlaen

4.31 Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae potensial ar gyfer cyfuno nifer o etholiadau. Bydd arloesi mewn prosesau etholiadol yn parhau i ddatblygu, a defnyddir cyfrif electronig yn gynyddol. Rydym wedi galw'n gyson am i ddatblygiadau fel hyn gael eu cynllunio'n iawn a'u hasesu'n llawn o safbwynt eu budd-cost ac effaith. Pa bynnag ddatblygiadau sy'n digwydd a pha bynnag etholiadau a gyfunir, fodd bynnag, bydd amseru cyfrif etholiadau yn parhau i fod yn ffactor.

4.32 Ni chredwn fod unrhyw ateb syml i osgoi dadleuon ynghylch amseru cyfrif etholiadau, gan y gall y rheiny sydd â budd yn y broses fod â barn a safbwyntiau gwahanol iawn. Fodd bynnag, credwn y gall yr egwyddorion canlynol wella'r dull o amseru cyfrifiadau mewn etholiadau i'r dyfodol.

Gwahoddwn eich barn ar yr egwyddorion canlynol:

- Dylai deialog ddigwydd rhwng gwleidyddion, cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol a Swyddogion Canlyniadau, a chael ei hysbysu gan fewnbwn oddi wrth ddarlledwyr a sefydliadau newyddion. Mae eu mewnbwn yn bwysig oherwydd drwyddynt hwy y caiff y mwyafrif o bleidleiswyr ddod i wybod am ganlyniadau etholiadau.

- Er mwyn caniatáu i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr ymgyrchu, ac i bleidleiswyr wneud eu penderfyniadau ar faterion o bwys wrth wraidd yr etholiad, dylid cymryd y penderfyniadau ar amseru'r cyfrif tu allan i'r cyfnod ymgyrchu priodol.

- Rhaid cymryd penderfyniadau ar gyfrifiadau etholiad yn ddigon buan i alluogi cynllunio effeithiol gan Swyddogion Canlyniadau.

- Dylai'r rhesymau dros benderfyniadau Swyddogion Canlyniadau gymryd i ystyriaeth y farn a fynegwyd, a chael eu hesbonio yn holl amgylchiadau'r achos.

Cwestiynau

- A oes unrhyw ffactorau cyffredinol eraill (na ddynodwyd yn y papur hwn) sy'n effeithio ar weinyddiad cyfrifiadau etholiad?

- A oes unrhyw safbwyntiau sylweddol eraill gan lywodraethau, ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol ar gyfrifiadau etholiad?

- Pa effaith a allai cyfrifiadau yn ystod y dydd ei chael ar fynediad y cyhoedd at ganlyniadau etholiad trwy ddarllediadau newyddion?

Etholiadau Cyffredinol Senedd y DU

- A ddylai'r gofyniad i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) mewn etholiadau cyffredinol Senedd y DU gychwyn cyfrif o fewn pedair awr o gau'r bleidlais gael ei ailystyried yn achos etholiadau cyfun neu newid sylweddol i'r broses etholiadol?

Etholiadau Senedd Ewrop

- A oes angen unrhyw newid i'r ymarfer presennol o gyrraedd penderfyniadau ynghylch amseru cyfrifiadau etholiad Senedd Ewrop?

Etholiadau Senedd yr Alban

- A oes angen unrhyw newid i'r ymarfer presennol o gyrraedd penderfyniadau, a arweinir gan y Cynullydd Etholiadau, ynghylch amseru etholiadau Senedd yr Alban?

- Pa farn arall y gellid ei cheisio a sut ddylid gwneud hyn?

Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- Beth yw eich barn ar ddefnyddio fforymau ac ymarfer presennol ar gyfer cynllunio etholiadau yng Nghymru i geisio barn cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol a darlledwyr a sefydliadau newyddion yng Nghymru, i hysbysu penderfyniadau Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddogion Canlyniadau?

- A ddylai'r pum Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol arwain deialog yn gasgliadol a cheisio cyrraedd consensws ar draws y rhanbarthau yn dilyn y farn a dderbynnir?

- Neu a ddylid cael newid deddfwriaethol i gyflwyno pŵer cyfarwyddo er mwyn cael mwy o gysondeb?

- Os felly, a ddylid gosod y pŵer cyfarwyddo hwnnw mewn swydd newydd cydlynydd neu gynullydd etholiadau y byddai angen ei sefydlu; neu i'r Comisiwn Etholiadol, yn debyg i sefyllfa'r Prif Swyddog Cyfrif yn refferendwm Cymru?

- A ddylai'r pum rhanbarth etholiadol yng Nghymru bob amser gychwyn cyfrif ar yr un pryd, hyd yn oed os yw hynny'n golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd cyfrifiadau'n digwydd y diwrnod ar ôl cau'r bleidlais?

Etholiadau lleol yn Lloegr ac etholiadau lleol yng Nghymru

- A oes angen unrhyw newid i'r ymarfer presennol o ddull lleol o bennu amseru cyfrifiadau mewn etholiadau lleol yn Lloegr ac etholiadau lleol yng Nghymru?

Etholiadau Cynulliad Llundain Fawr

- A oes angen unrhyw newid i'r ymarfer presennol ynghylch pennu amseru cyfrifiadau yn Etholiadau Cynulliad Llundain Fawr?

Edrych ymlaen

Gwahoddwn eich barn ar yr egwyddorion canlynol::

- Dylai deialog ddigwydd rhwng gwleidyddion, cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol a Swyddogion Canlyniadau, a chael ei hysbysu gan fewnbwn oddi wrth ddarlledwyr a sefydliadau newyddion. Mae eu mewnbwn yn bwysig oherwydd drwyddynt hwy y caiff y mwyafrif o bleidleiswyr ddod i wybod am ganlyniadau etholiadau.
- Er mwyn caniatáu i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr ymgyrchu ac i bleidleiswyr wneud eu penderfyniadau ar faterion o bwys wrth wraidd yr etholiad, dylid cymryd y penderfyniadau ar amseru'r cyfrif tu allan i'r cyfnod ymgyrchu priodol.
- Rhaid cymryd penderfyniadau ar gyfrifiadau etholiad yn ddigon buan i alluogi cynllunio effeithiol gan Swyddogion Canlyniadau.
- Dylai'r rhesymau dros benderfyniadau Swyddogion Canlyniadau gymryd i ystyriaeth y farn a fynegwyd, a chael eu hesbonio yn holl amgylchiadau'r achos.

Atodiad A: Fframwaith deddfwriaethol

Mae'r Atodiad hwn yn nodi pwy sy'n medru gwneud penderfyniadau ynghylch pryd mae pleidleisiau'n cael eu cyfrif ym mhob un o'r etholiadau mawr ar draws y DU. Mae'n crynhoi'r math o etholiad, gan gynnwys nifer yr unedau etholaethol (etholaethau, rhanbarthau neu awdurdodau lleol) dan sylw, y system bleidleisio, nifer y papurau pleidleisio, a'r dull a ddefnyddir gan bleidleisiwyr i wneud eu dewis.

Etholiad	Deddfwriaeth
Etholiad cyffredinol Senedd y DU 650 o etholaethau System etholiadol: Cyntaf i'r felin (mwyafrif syml).Un papur pleidleisio. Rhoddir croes yn y blwch gyferbyn ag ymgeisydd o ddewis y pleidleisiwr. Etholaeth Seneddol: Mae'n ofynnol ar i Swyddogion Canlyniadau gymryd camau rhesymol i gychwyn cyfrif mor fuan ag y mae'n ymarferol bosib o fewn cyfnod o 4 awr o gau'r bleidlais. Mae'n ofynnol ar i'r Comisiwn Etholiadol roi canllaw i Swyddogion Canlyniadau ar y ddyletswydd i gychwyn cyfrif o fewn 4 awr.	**Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Atodlen 1, Rheol 45(3)(A)** 'The Returning Officer shall take reasonable steps to begin counting the votes given on the ballot papers as soon as practicable within the period of 4 hours – starting with the close of poll.' **Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Atodlen 1, Rheol 45(6)** 'The Returning Officer shall as soon as practicable proceed continuously with the votes, allowing only time for refreshment, except that he may, in so far as he and the agents agree, exclude the hours between 7 in the evening and 9 on the following morning.' **Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Atodlen 1, Rheol 45(8)** 'The Electoral Commission shall issue guidance to Returning Officers on the duty imposed by paragraph 3A.'

Etholiad Senedd Ewrop 12 rhanbarth Senedd Ewrop yn y DU System etholiadol: Ym Mhrydain Fawr y system rhestr plaid. Un papur pleidleisio. Rhoddir croes yn y blwch gyferbyn â phlaid wleidyddol o ddewis y pleidleiswr. Yng Ngogledd Iwerddon defnyddir STV. Un papur pleidleisio. Trefnir ymgeiswyr yn ôl trefn dewis 1,2,3 ayb ar gyfer cymaint neu gyn lleied o ymgeiswyr. Fel arfer mae pleidleiswyr yn mynd i bleidleisio ar Ddydd Iau ond ni fydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi tan fo pleidleisio wedi cau ar draws Ewrop am 9 pm ar y Sul canlynol. Yng Ngogledd Iwerddon mae cyfrifiadau yn digwydd ar y Dydd Llun. Mae gan Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol Senedd Ewrop bŵer cyfarwyddo dros Swyddogion Canlyniadau Lleol yng nghyswllt cynnal eu swyddogaethau yn eu rhanbarth nhw. Gellir ei ddefnyddio yn ôl disgresiwn y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a gallai gynnwys materion yn ymwneud â chyfrif yr etholiad.	Dilysu Etholiad Senedd Ewrop Rheoliadau 2004,Atodlen 1, Rheol 50 'The Local Returning Officer must make arrangements for the verification of the ballot paper accounts in the presence of the counting agents as soon as practicable after the close of poll.' Etholiad Senedd Ewrop Rheoliadau 2004, Atodlen 1, Rheol 51(6) The Local Returning Officer must determine the hours during which the procedure under this rule is proceeded with. Cyfrif (52(1) Rheolau Etholiad Senedd Ewrop. The Local Returning Officer must make arrangements for counting the votes in the presence of the counting agents - a) In the case of a general election of Members of the European Parliament, before or after the material time and in either case so that the requirements of rule 57(1) are satisfied as soon as practicable after the material time; and b) In the case of the by-election, as soon as practicable after the close of poll 2) For the purposes of paragraph 1, the 'material time' means in relation to a general election of Members of the European Parliament, the close of the polling in the Member State whose electors are the last to vote in the election.

Etholiadau Senedd yr Alban 73 o etholaethau 8 o ranbarthau System etholiadol: System Aelod Ychwanegol Dau bapur pleidleisio. Ar y papur pleidleisio etholaeth, rhoddir croes yn y blwch gyferbyn ag ymgeisydd o ddewis y pleidleiswr (cyntaf i'r felin) Ar y papur pleidleisio rhanbarthol, rhoddir croes yn y blwch gyferbyn â phlaid wleidyddol o ddewis y pleidleiswr (rhestr gaeedig). Mae'n ofynnol ar i Swyddogion Canlyniadau Etholaeth gyfrif mor fuan ag y mae'n rhesymol ymarferol ar ôl cau'r bleidlais. Hefyd mae'n ofynnol ar i'r Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol gyfrifo a dyrannu'r seddi rhanbarthol mor fuan ag y mae'n ymarferol ar ôl derbyn datganiad gan y Swyddog Canlyniadau Etholaeth.	Gorchymyn Etholiadau Senedd yr Alban 2010 54.—(1) The Constituency Returning Officer shall make arrangements for counting the votes in the presence of the counting agents as soon as practicable after the close of the poll and shall give to the counting agents and the Regional Returning Officer notice in writing of the time and place at which the CRO will begin to count the votes . 63(1) The RRO shall make arrangements for making the calculation and allocation referred to in rule 64 as soon as practicable after the RRO receives the statement prepared under rule 61 and the notification under rule 62(3) from each CRO in that region.
Etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 40 o etholaethau 5 o ranbarthau. System etholiadol: System Aelod Ychwanegol Dau bapur pleidleisio. Ar y papur pleidleisio etholaeth, rhoddir croes yn y blwch gyferbyn ag ymgeisydd o ddewis y pleidleiswr. Ar y papur pleidleisio rhanbarthol, rhoddir croes yn y blwch gyferbyn â phlaid wleidyddol o ddewis y pleidleiswr. Mae'n ofynnol ar i Swyddogion Canlyniadau Etholaeth gyfrif mor fuan	Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007. Atodlen 5, Rheol 54(1) a 54(2) a 61(2) At an Assembly election the constituency returning officer shall – a) Subject to paragraph 2 make arrangements for the counting of votes in the presence of the counting agents as soon as practicable after the close of poll b) Give to the counting agents and in the case of a regional election, to the Regional Returning Officer, notice in writing (ii) in the case where the power

ag y mae'n rhesymol ymarferol ar ôl cau'r bleidlais. Rhaid i Swyddogion Canlyniadau Etholaeth roi rhybudd ysgrifenedig i'r Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol perthnasol ynghylch pryd y byddant yn cyfrif pleidleisiau rhanbarthol. Pan fo'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi derbyn y wybodaeth ofynnol gan bob Swyddog Canlyniadau Etholaeth, bydd yn ardystio'r cyfanswm niferoedd. Nid oes amserlen wedi ei nodi ar gyfer i hyn ddigwydd. Gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyfarwyddo Swyddogion Canlyniadau Etholaethna chaiff cyfrif pleidleisiau etholaeth a rhanbarth gychwyn tan amser penodol rhwng 9 am a hanner dydd ar y diwrnod ar ôl cau'r bleidlais. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi 28 diwrnod o rybudd o'r fath gyfarwyddyd.	conferred by rule 55(3) is exercised, of the time and the place at which he will count the votes following completion of the proceedings described in rule 55(1) (iii) in the case of a direction under paragraph 2, of the time and the place at which he will count the votes following completion of the proceedings described in rule 55(1) (2) At an Assembly general election where there are polls at a regional elections; and constituency elections in the Assembly electoral region for which the regional election is held The Secretary of State may direct each constituency returning officer for an constituency within that Assembly electoral region that the counting of votes (as provided for in rule 55(5) in respect of the regional and constituency election shall not begin before such time between the hours of 9 in the morning and noon on the day following the close of polls for those elections as specified in the direction. 3) A direction given under paragraph 2 shall be given not later than 28 days before the date of the poll at the Assembly general election in question. 61(2) Where the RRO has received the information required to be conveyed to him under paragraph (1) from each constituency returning officer for an Assembly constituency in the Assembly electoral region, he shall certify the totals of the numbers referred to in paragraph (1) for the electoral region.
Cynulliad Gogledd Iwerddon 18 o etholaethau – 108 MLAs 6 i bob	Gorchymyn Cynulliad Gogledd Iwerddon (Etholiadau) 2001, Atodlen 1, 44B(8)

etholaeth System etholiadol: y Bleidlais Drosglwyddadwy Sengl 1 papur pleidleisio. Pleidleisiwr yn nodi '1' a '2' ar gyfer eu dewis ymgeisydd `1af ac 2il ac yn y blaen. Pleidleisio ar gyfer gymaint neu gyn lleied o ymgeiswyr ag y dymunir. Nid oes gofyniad bod y cyfrif yn cychwyn mor fuan ag sy'n ymarferol ar ôl cau'r bleidlais.	The Returning Officer shall as soon as practicable proceed continuously with counting the votes allowing only time for refreshment, excluding (except so far as he and agents otherwise agree) the hours between 11 in the evening and 9 on the following morning.
Etholiadau lleol yn Lloegr a Chymru System etholiadol : Lloegr – Cyntaf i'r felin (rhai wardiau lle gwag unigol a rhai aml aelod). Cymru – Cyntaf i'r felin (rhai wardiau lle gwag unigol a rhai aml aelod) Mae'n ofynnol ar i Swyddogion Canlyniadau gyfrif mor fuan ag y mae'n rhesymol ymarferol ar ôl cau'r bleidlais.	Rheolau Etholiadau lleol (Prif Ardaloedd) (E&W) 2006 Rheol 44 a rheol 45(8) 44(1) The Returning Officer must make arrangements for counting the votes in the presence of counting agents as soon as practicable after the close of poll. 45(8) The Returning Officer must as soon as practicable proceed continuously with counting the votes, allowing only time for refreshment, except that he may exclude the hours between 7 in the evening and 9 the following morning.
Etholiadau lleol yn yr Alban System etholiadol: Pleidlais drosglwyddadwy sengl (STV). Un papur pleidleisio. Pleidleisiwr yn nodi '1' and '2' ar gyfer eu hymgeiswyr dewis 1af ac 2il. Mae'n ofynnol ar i Swyddogion Canlyniadau gyfrif mor fuan ag y mae'n rhesymol ymarferol ar ôl cau'r	Gorchymyn Etholiadau Llywodraeth Leol yr Alban 2011 41 (1) The returning officer shall make arrangements for counting the votes in the presence of the counting agents as soon as practicable after the close of the poll, and shall give to the counting agents notice in writing of the time and place at which the returning officer will begin to count the votes. 42.—(1) Subject to paragraphs (3) and

bleidlais.	(4), the returning officer shall provide an electronic counting system and the count shall be conducted by means of such electronic counting system.
Etholiadau lleol yng Ngogledd Iwerddon System etholiadol: Pleidlais drosglwyddadwy sengl (STV). Un papur pleidleisio. Pleidleisiwr yn nodi '1' a '2' ar gyfer eu hymgeiswyr dewis 1af ac 2il ac yn y blaen. Pleidleisio ar gyfer gymaint neu gyn lleied o ymgeiswyr ag y dymunir.	Rheolau Etholiadau Lleol Atodlen 5 Deddf Cyfraith Etholiadol (Gogledd Iwerddon) 1962 Rheol 43
Etholiadau cynghorau plwyf a chymuned yn Lloegr a Chymru System etholiadol: Lloegr – Cyngor plwyf – Cyntaf i'r felin (rhai wardiau lle gwag unigol a rhai aml aelod) System etholiadol: Cymru - Cyngor cymuned – Cyntaf i'r felin (rhai wardiau lle gwag unigol a rhai aml aelod) Mae'n ofynnol ar i Swyddogion Canlyniadau gyfrif mor fuan ag y mae'n rhesymol ymarferol ar ôl cau'r bleidlais.	Etholiadau lleol (Plwyfi a Chymunedau) (E&W) Rheolau 2006 Rheol 44 a rheol 45(8) 44(1) The Returning Officer must make arrangements for counting the votes in the presence of counting agents as soon as practicable after the close of poll. 45(8) The Returning Officer must as soon as practicable proceed continuously with counting the votes, allowing only time for refreshment, except that he may exclude the hours between 7 in the evening and 9 the following morning.
Etholiadau Cynulliad Llundain Fawr (gan gynnwys etholiadau meiri) 14 etholaeth System etholiadol: Aelodau Cynulliad Etholaethau - Cyntaf i'r felin Aelodau Llundain – System rhestr plaid – 1 bleidlais nesaf at blaid Maer Llundain – Pleidlais atodol – dwy golofn ar y papur pleidleisio – un i bleidleiswyr nodi eu dewis cyntaf ac un i nodi eu hail ddewis. Pleidleisiwyr yn	Rheolau Etholiadau Awdurdod Llundain Fawr 2007 47(1) As soon as practicable after the close of the poll, the CRO must make arrangements for carrying out, in the presence of counting agents, the verification and counting of votes at the election. 48 (1) The GLRO may provide the CRO with an electronic counting system consisting of computer hardware, software and other

nodi un‘X’ ym mhob colofn, er nad oes rhaid i bleidleiswyr nodi ail ddewis os na ddymunant.	equipment of services, for the purpose of counting the number of ballot papers, to verify the ballot paper accounts and to count the votes cast on them.
Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throsedd System etholiadol: Pleidlais atodol Bydd hyd at ddau gylch o gyfrif â llaw gan Swyddogion Canlyniadau Lleol (LROs) ar draws nifer o ardaloedd awdurdod lleol dan gyfarwyddyd canolog Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd Heddlu (PARO). Os oes dau ymgeisydd bydd y canlyniad yn cael eui bennu’n ôl y cyntaf i’r felin. Os oes mwy na dau ymgeisydd, cyfrifir y pleidleisiau dan y system pleidlais atodol. Hefyd bydd angen i’r LROs a’r PAROs benderfynu ar gwestiwn o p’un a ddylai’r cyfrif ddigwydd yn ganolog yn y rhanbarth neu’n lleol (gyda chanlyniadau cyffredinol ardaloedd heddluoedd yn cael; eu coladu mewn lleoliad canolog).	Deddf Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 Rheoliadau mewn drafft ar hyn o bryd.
Refferenda Meiri Gall Llywodraeth y DU ei gwneud yn ofynnol ar i awdurdod lleol gynnal refferendwm ar gyfer maer etholedig. Bydd yn ofynnol ar i Swyddogion Canlyniadau gyfrif mor fuan ag y mae’n ymarferol ar ôl cau’r bleidlais.	Deddf Lleoliaeth 2011 Rheoliadau ar gyfer cynnal etholiadau sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd, Hefyd mae gan y ddeddfwriaeth hon y potensial i ganiatáu refferenda trethy y cyngor a refferenda cynllunio lleol diweddarach.
Etholiadau Meiri System etholiadol: Pleidlais atodol Byddai etholiadau Meiri yn dilyn mewn ardaloedd a bleidleisiodd ‘Ie’ am faer mewn refferendwm meiri. Hefyd cynhelir etholiadau Meiri mewn	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Meiri) (Lloegr a Chymru) 2007

ardaloedd sydd eisoes wedi ethol i gael Maer etholedig.	

Atodiad B: Etholiadau cyfun posib

2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17		2017-18	
Digwyddiad	Dyddiad	Digwyddiad	Dyddiad	Digwyddiad	Dyddiad	Digwyddiad	Dyddiad	Digwyddiad	Dyddiad	Digwyddiad	Dyddiad
Cynulliad Llundain	Mai-12	Llywodraeth leol Lloegr	Mai-13	Llywodraeth leol Lloegr	Mai-14	Senedd y DU	Mai-15	Cynulliad Cymru	Mai-16	Llywodraeth leol Lloegr	Mai-17
	Mai-12			Senedd Ewrop	Meh-14	Cynulliad Gogledd Iwerddon	Mai-15	Senedd yr Alban	Mai-16	Llywodraeth leol yr Alban	Meh-17
Maer Llundain	Mai-12						Mai-15		Mai-16		
	Mai-12			Llywodraeth leol Gogledd Iwerddon	TBA	Llywodraeth leol Lloegr		Cynulliad Llundain Maer Llundain	Mai-16		
Llywodraeth leol Lloegr	Mai-12							Llywodraeth leol Lloegr	Mai-16		
Llywodraeth leol yr Alban	Nov-12							Llywodraeth leol Cymru	Mai-16		
Llywodraeth leol Cymru								Comisiynydd Heddlu a Throsedd			
Comisiynydd Heddlu a Throsedd											

Cysylltu â ni

The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ
Ffôn: 020 7271 0500
Ffacs: 020 7271 0505
Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
info@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
Scotland Office
38 Thistle Street
Edinburgh EH2 1EN
Ffôn: 0131 225 0200
Ffacs: 0131 225 0205
Ffôn testun: 18001 0131 225 0200
infoscotland@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Cymru
Tŷ Caradog
1–6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE
Ffôn: 029 2034 6800
Ffacs: 029 2034 6805
Ffôn testun: 18001 029 2034 6800
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

The Electoral Commission
Northern Ireland Office
Seatem House
28–32 Alfred Street
Belfast BT2 8EN
Ffôn: 028 9089 4020
Ffacs: 028 9089 4026
Ffôn testun: 18001 028 9089 4020
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
Eastern and South East Office
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ
Ffôn: 020 7271 0600
Ffacs: 020 7271 0505
Ffôn testun: 18001 020 7271 0600
easternandsoutheast@electoral
commission.org.uk

The Electoral Commission
London Office
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ
Ffôn: 020 7271 0689
Ffacs: 020 7271 0505
Ffôn testun: 18001 020 7271 0689
london@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
Midlands Office, No 2 The Oaks
Westwood Way, Westwood Business Park
Coventry CV4 8JB
Ffôn: 02476 820086
Ffacs: 02476 820001
Ffôn testun: 18001 02476 820086
midlands@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
North of England Office
York Science Park
IT Centre
Innovation Way
Heslington
York YO10 5NP
Ffôn: 01904 567990
Ffacs: 01904 567719
Ffôn testun: 18001 01904 567990
north@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
South West Office
Regus, 1 Emperor Way
Exeter Business Park
Exeter EX1 3QS
Ffôn: 01392 314617
Ffacs: 01392 314001
Ffôn testun: 18001 01392 314617
southwest@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn 020 7271 0500
Ffacs 020 7271 0505
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Mae manylion cyswllt ar gyfer ein swyddfeydd yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a rhan-barthau Lloegr tu fewn i glawr cefn yr adnodd hwn.

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw hygrededd y broses ddemocratiadd a hyder y cyhoedd ynddi. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda.

Mae democratiaeth yn cyfrif